



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023-2024



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English

Rhagair

Dyma Adroddiad Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023-24 ac mae'n canolbwyntio ar ein cyflawniadau allweddol yn erbyn Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru. Rydym yn sefydliad Cymru gyfan, gyda 2439 o aelodau staff sy'n gweithio o wahanol leoliadau ar hyd a lled y wlad.

Rydym yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog ac rydym yn falch iawn o'r cynnydd yr ydym wedi gallu ei wneud i wreiddio'r Gymraeg ymhellach yn ein holl waith ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae llawer i'w ddathlu yn yr adroddiad hwn, megis ein Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol a'n Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn Fewnol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023. Yn arbennig, daeth ein Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol â chydweithwyr o wahanol adrannau at ei gilydd i weithio ar y drafft a'r canlyniad yw cynllun sy'n uchelgeisiol ac yn realistig.

Roedd yn bleser gennym groesawu Efa Gruffydd Jones i'n swyddfa ym mis Rhagfyr ac edrychwn ymlaen at gydweithio'n agosach ar gyd-reoleiddio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt. Roedd ein Hwylthnos Gymraeg gyntaf ym mis Chwefror yn llwyddiant a rhoddodd gyfle i ni hyrwyddo'r Gymraeg a'r diwylliant dwyieithog cyfoethog yr ydym yn ffodus i'w gael yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn ystod yr wythnos fe wnaethom hefyd ddyfarnu ein teitl Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn cyntaf erioed, gwobr rydym yn edrych ymlaen at ei chyflwyno'n flynyddol.

Mae ein rhwydwaith staff, Ymlaen, hefyd yn parhau i fynd o nerth i nerth gyda llawer mwy o aelodau'n ymuno dros y flwyddyn ddiwethaf a digwyddiadau rheolaidd yn cael eu cynnal.

Rydym hefyd yn falch o'n cyflawniadau wrth ragori ar dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer y staff sydd wedi cwblhau modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a bod 95% o'n staff bellach wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg - mae'r ddwy gamp yn dangos positifrwydd ein staff tuag at y Gymraeg a'u hymroddiad iddi.

Gwyddom wrth gwrs fod gennym feysydd sydd angen eu gwella a byddwn yn parhau â'r gwaith sydd eisoes wedi dechrau ar wella ein gwefannau Cymraeg dros y flwyddyn nesaf yn ogystal â gwella ein prosesau cyfieithu; bydd y ddau brosiect hyn yn rhoi gwell gwasanaeth Cymraeg gennym i'n haelodau staff a'n cwsmeriaid.



Mae gennym hefyd lawer i edrych ymlaen ato dros y flwyddyn nesaf ac mae ein targedau ar gyfer 2024 – 2025 wedi'u hamlygu ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Bydd cynllun Codi Hyder y Ganolfan Dysgu Cymraeg yn hwb calonogol i'n haelodau staff niferus nad ydynt ar hyn o bryd yn teimlo bod ganddynt yr hyder angenrheidiol i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle a bydd prosiect cynllunio'r gweithlu yn siŵr o gael effaith ar sut rydym yn denu ac yn recriwtio siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn wirioneddol ymroddedig i'r Gymraeg ac rydym yn parhau i elwa ar yr arweinyddiaeth a ddangosir gan ein Bwrdd a'n Tîm Gweithredol i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan amlwg a chlywadwy o'u cyfathrebu, ar awydd ein staff ar bob lefel i ddysgu, gwella a defnyddio'r Gymraeg, ac ar ewyllys da ac ymrwymiad arbennig ein staff sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen, AC sy'n cydnabod pwysigrwydd yr iaith wrth wella profiadau iechyd pobl Cymru.

Rydym yn parhau i fod yn falch o'n cyflawniadau a chredwn fod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos ein hymroddiad parhaus i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ledled Cymru.

Neil Lewis

**Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol ac Arweinydd
Gweithredol y Gymraeg**



Cyflwyniad

Daeth y gofyniad i Iechyd Cyhoeddus Cymru gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 i rym ar 30 Mai 2019; mae'r safonau y mae'n rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru gydymffurfio â hwy wedi'u nodi mewn [Hysbysiad Cydymffurfio](#) a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Dyma ein pumed Adroddiad Blynyddol, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Gweithredu Safonau'r Gymraeg

Trefniadau ar gyfer hwyluso'r gwaith o weithredu'r safonau

Y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol sy'n bennaf gyfrifol am y Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gennym Hyrwyddwr y Gymraeg ar ein Bwrdd ac mae ein Rheolwr newydd y Gymraeg yn gyfrifol am gynllunio strategol a gweithredol y Gymraeg ar draws y sefydliad.

Ar ddechrau'r cyfnod adrodd hwn, roedd Rheolwr y Gymraeg wedi dechrau ar ei rôl o fewn y sefydliad. Mae hon yn rôl newydd, gan fod y Gymraeg gynt yn rhan o gyfrifoldebau ein Harweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Ym mis Tachwedd 2022, gwelsom gyfle i ailstrwythuro'r tîm a chael rôl benodol yn arwain ar y Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rydym hefyd yn cyflogi Cynghorydd y Gymraeg sy'n adrodd yn uniongyrchol i Reolwr y Gymraeg. Mae rôl y Cynghorydd yn cefnogi ein dysgwyr Cymraeg, yn hyrwyddo'r Gymraeg yn ein cyfathrebiadau mewnol ac yn cefnogi timau ar draws y sefydliad i ymgorffori'r Gymraeg yn eu gwaith.

Mae Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn derbyn adroddiadau a diweddariadau rheolaidd ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Gweithio mewn Partneriaeth

Mae gan ein Tîm y Gymraeg berthynas waith agos â Swyddogion a Rheolwyr y Gymraeg byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill ledled Cymru. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod heriau a rhannu arfer gorau ac i gyd-drefnu digwyddiadau ar gyfer staff GIG Cymru, lle bo modd.

Yn ogystal, mae gennym berthynas waith agos gydag Uned y Gymraeg o fewn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae ein Tîm y



Gymraeg yn mynychu cyfarfodydd chwarterol ar-lein ac wyneb yn wyneb gyda'r tîm i drafod y nodau ac amcanion yn Fframwaith Strategol Mwy Na Geiriau.

Mae'r perthnasoedd hyn yn helpu i hwyluso cydweithio ac i rannu profiadau a dysgu gyda'r nod o wella'r ddarpariaeth Gymraeg.

Fel sefydliad Cymru gyfan, mae aelodau ein Tîm y Gymraeg yn ymuno â fforymau rhanbarthol Mwy Na Geiriau o bryd i'w gilydd i sicrhau ein bod yn gweithio mewn partneriaeth o fewn y sector iechyd a gofal ledled Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn mynychu fforymau ardaloedd Betsi Cadwaladr a Phowys.

Trefniadau cyfieithu

Ar hyn o bryd, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddau lwybr i staff gael gafael ar wasanaethau cyfieithu. Rydym yn caffael gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd drwy Gytundeb Fframwaith Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Cymru, sy'n cael ei reoli gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Mae gennym hefyd Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Uned Gyfieithu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer gwasanaethau cyfieithu dogfennau. Darperir gwasanaethau cyfieithu ar y pryd gan gyfieithwyr o'r Fframwaith Cyfieithu uchod.

Mae gan bob cyfarwyddiaeth eu Cydlynwyr Cyfieithu eu hunain, sy'n gweinyddu eu gwaith cyfieithu.

Mae cael gafael ar gyfieithu i'r Gymraeg yn gallu bod yn her ar adegau gan fod y broses o gael gafael ar gyfieithwyr y Fframwaith yn gallu bod yn gymhleth a, chan ein bod yn defnyddio cynifer o gyflenwyr ar gyfer ein gwaith cyfieithu, gall y cyfieithiadau a ddychwelir fod yn anghyson yn aml.

Yn ystod hanner cyntaf 2023, cynhaliodd Tîm y Gymraeg ymarfer cwmpasu i gael adborth gan gydweithwyr ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ein prosesau cyfieithu presennol. Nodwyd llawer o heriau ac, ym mis Medi, cytunodd y Tîm Gweithredol Busnes ar set o argymhellion ar gyfer ein prosesau yn y dyfodol. Mae'r prosesau newydd hyn yn cynnwys:

- Cynyddu nifer y geiriau y gall Uned Gyfieithu'r Bartneriaeth Cydwasanaethau ei darparu i ni yn flynyddol rhwng 2024 a 2026
- Gan fod Fframwaith Cyfieithu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi dod i ben yn swyddogol ym mis Gorffennaf 2023 (cawsom estyniad blwyddyn ychwanegol drwy ein cydweithwyr caffael), byddwn yn tendro am ein cyflenwyr cyfieithu ein hunain yng ngwanwyn 2024
- Byddwn yn cyflogi ein Cydlynwyr Cyfieithu corfforaethol ein hunain ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, a fydd yn arwain ac yn rheoli'r gwaith cyfieithu ar gyfer y sefydliad ac yn gweithio gyda Thîm y Gymraeg i roi gwelliannau ar waith at y dyfodol.

Bydd y prosesau newydd hyn yn cefnogi holl feysydd y sefydliad i sicrhau cysondeb a chywirdeb ein gwybodaeth Gymraeg.



Ym mis Mawrth, cynhaliodd Tîm y Gymraeg y cyfarfod cyntaf gyda Chydlynwyr Cyfieithu'r Cyfarwyddiaethau i rannu diweddariadau ar ein prosesau cyfieithu a rhoi cyfle i'r cydlynwyr godi unrhyw faterion neu heriau. Cynhelir y cyfarfodydd hyn bob 8 wythnos.

Hunanreoleiddio

Mae cyfarwyddwyr unigol yn gyfrifol am drefniadau o fewn eu cyfarwyddiaethau eu hunain, sy'n rhoi sicrwydd iddynt fod gofynion y Gymraeg yn cael eu bodloni'n llawn.

Mae ein **Grŵp y Gymraeg**, sy'n cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol, yn cynnwys hyrwyddwyr y Gymraeg o bob rhan o'r sefydliad sy'n dod ynghyd i drafod cydymffurfedd cyffredinol, llwyddiannau a heriau. Cedwir Cofnod Gweithredu ar gyfer y cyfarfodydd hyn i sicrhau cynnydd.

Dros y flwyddyn hon, rydym wedi cytuno ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp hwn fel bod pwrpas y grŵp a chyfrifoldebau'r aelodau wedi'u diffinio'n glir. Hefyd, rydym wedi cynyddu aelodaeth i sicrhau bod pob rhan o'r sefydliad yn cael ei chynrychioli.

Un o'n targedau ar gyfer y llynedd oedd sicrhau bod gennym drefniadau monitro ac adrodd cadarn o ran cydymffurfio ar draws y sefydliad ac, ym mis Hydref 2023, cyflwynwyd templed monitro cydymffurfedd newydd drwy aelodau Grŵp y Gymraeg i bob Cyfarwyddiaeth ei gwblhau er mwyn monitro eu cydymffurfedd eu hunain â phob un o Safonau'r Gymraeg. Gofynnwyd i'r adrannau ddychwelyd y templedi i Dîm y Gymraeg erbyn canol mis Mawrth 2024 fel y gellid bwydo'r wybodaeth i'r adroddiad blynyddol hwn. Canfu'r adrannau fod cwblhau'r templed yn ymarfer defnyddiol ac yn gyfle i bwysu a mesur lle'r oedd cydymffurfedd yn dda a lle mae angen cymorth arnynt â bylchau. Gofynnir i adrannau ailedrych ar y templedi a'u diweddarau yn rheolaidd i fonitro a diweddarau cynnydd.

Hefyd, mae gan lawer o adrannau eu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol eu hunain ar gyfer rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith a chaiff y rhain eu diweddarau'n rheolaidd.

Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio

Mae gan ein His-adran Sgrinio hefyd grŵp iaith Gymraeg sy'n cael ei gadeirio gan Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd ac a fyny chir gan reolwyr o bob un o'r rhaglenni sgrinio. Ceir cynlluniau gweithredu, cofnodion a chofnodion gweithredu, a chaiff cynnydd ei fonitro'n agos a'i adrodd i uwch dîm rheoli'r is-adran. Mae Tîm y Gymraeg yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn rheolaidd i sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu a bod pawb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

Ym mis Ebrill 2023, cynhaliodd yr Is-adran Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio ddigwyddiad ar y Gymraeg yn benodol, lle rhoddwyd cyflwyniad i amlinellu



deddfwriaeth y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg yn ogystal ag arfer da ar draws yr Is-adran.

Mae ein gwasanaethau Sgrinio yn arbennig wedi cymryd camau breision ymlaen yn natblygiad eu gwasanaethau Cymraeg ers i'r Safonau ddod i rym yn 2019 a chyflwynodd y tîm y gwaith gwych a wnaed gan y gwasanaeth yn y digwyddiad.

Mae'r iaith Gymraeg, a chydymffurfedd â'r safonau yn benodol, yn eitem sefydlog ar agenda nifer o sgysiau Cyfarwyddiaethau a thimau ar draws y sefydliad.

Tîm y Gymraeg

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru Dîm bach y Gymraeg (2 aelod o staff) sy'n cefnogi staff ar draws y sefydliad i wreiddio'r Gymraeg yn eu gwaith, i hyrwyddo'r diwylliant dwyieithog o fewn y sefydliad ac i gynnig cyngor a chymorth ar gydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg. Mae'r tîm yn gwneud hyn drwy:

- Ddrafftio canllawiau a thempledi y gall staff gael mynediad atynt ar dudalennau mewn rwyd Hwb y Gymraeg
- Codi ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru drwy gyhoeddi Cylchlythyr Cymraeg misol ar gyfer yr holl staff
- Mynychu cyfarfodydd i roi diweddariadau ar safonau amrywiol a rhoi diweddariadau
- Cynnal sesiynau galw heibio Cymraeg misol i ateb ymholiadau
- Cynnig sesiynau hyfforddi a chyflwyniadau i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y gweithle
- Sicrhau bod ein staff sy'n dymuno dysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn gallu manteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi
- Arwain ar ein prosesau cyfieithu Cymraeg i sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn addas i'r diben at y dyfodol
- Monitro cydymffurfedd ar draws y sefydliad, nodi bylchau lle maent yn bodoli ac arwain ar ymholiadau a chwynion gan aelodau'r cyhoedd neu Gomisiynydd y Gymraeg.

Gweithrediaeth y GIG

Swyddogaeth cymorth genedlaethol yw Gweithrediaeth GIG Cymru, a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2023. Prif ddiben Gweithrediaeth GIG Cymru yw ysgogi gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gofal, gan arwain at ganlyniadau, mynediad a phrofiad gwell a thecach i'r claf, llai o amrywiadau a gwelliannau yn iechyd y boblogaeth. Mae Gweithrediaeth GIG Cymru yn gweithredu drwy fodel hybrid, yn hytrach na bod yn endid annibynnol. Mae'n cael ei lletya gan Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, felly mae'n dilyn Safonau'r Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Mae gwybodaeth am Weithrediaeth y GIG ar gael ar y wefan:

[Gweithrediaeth GIG Cymru - GIG Cymru](#)



Mae Gweithrediaeth GIG Cymru yn cyflogi ei Chydlynnydd Iaith Gymraeg ei hun, sy'n cefnogi ei staff i ddeall a gweithredu Safonau'r Gymraeg. Mae gan holl staff Gweithrediaeth GIG Cymru fynediad i Hwb y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael arweiniad a chymorth ac mae Cydlynnydd y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda Thîm y Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Cydlynnydd y Gymraeg yn mynychu cyfarfodydd Swyddogion y Gymraeg GIG Cymru gyfan a gynhelir drwy Teams ac wyneb yn wyneb ac mae'n cyfarfod â Rheolwr y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru bob mis i drafod unrhyw faterion neu ymholiadau a godir neu y mae angen ymchwilio iddynt.

Mae Cydlynnydd y Gymraeg hefyd yn rhan o rwydwaith 'Ymlaen' Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae croeso i holl staff Gweithrediaeth y GIG ymuno ag unrhyw un o'r 7 rhwydwaith staff yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cydlynnydd y Gymraeg yw Cydlynnydd Cyfieithu'r Gyfarwyddiaeth ar gyfer Gweithrediaeth GIG Cymru. Felly, mae'n mynychu sesiynau dal i fyny rheolaidd Cydlynwyr Cyfieithu'r Gyfarwyddiaethau a Thîm y Gymraeg, sy'n digwydd bob dau fis. Cynhelir y sesiynau hyn er mwyn sicrhau bod Cydlynwyr Cyfieithu Gyfarwyddiaethau yn gallu cyfathrebu â staff Cymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru os oes ganddynt unrhyw broblemau o ran prosesau cyfieithu. Fel Cydlynnydd Cyfieithu'r Gyfarwyddiaeth, cyfrifoldeb Cydlynnydd y Gymraeg yw sicrhau bod cyfieithiadau o fewn Gweithrediaeth GIG Cymru yn cael eu hanfon a'u dychwelyd at y sawl sy'n gofyn am gyfieithiad.

I gefnogi staff gyda'r Gymraeg, mae gan Weithrediaeth GIG Cymru amrywiaeth o adnoddau i'r holl staff, sydd ar gael ar dudalennau'r fewnwyd. Yn ogystal, gall staff gael mynediad at dudalen Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Hwb y Gymraeg ar y fewnwyd, sy'n darparu gwybodaeth i staff am gyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Mae gan staff Gweithrediaeth GIG Cymru opsiwn hefyd i ymuno â sianeli Teams Dysgu Cymraeg a chael y Cylchlythyr Cymraeg misol.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 1-64

Gohebiaeth a ffôn (Safonau 1–20)

Gohebiaeth

Mae timau ar draws y sefydliad yn teimlo'n hyderus i fodloni'r safonau gohebiaeth ac mae anfon gohebiaeth ddwyieithog bellach yn rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd. Mae siaradwyr Cymraeg yn ymateb i ohebiaeth a dderbynnir a, lle bo angen, mae staff yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau cyfieithu Cymraeg.

Lle'r ydym yn gwybod dewis iaith unigolyn, rhennir gohebiaeth yn yr iaith honno ac ar gyfer gohebiaeth yr ydym yn ei rhannu â chynulleidfa fawr, megis cylchlythyrau, caiff y rhain eu cynhyrchu a'u rhannu'n ddwyieithog. Gweler enghraifft isod o gylchlythyr misol Cymru Iach ar Waith.



CW HWW | Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales

Medi 2023

Croeso i E-fwletin Cymru Iach ar Waith (CIW)

Darparu diweddariadau gan ddim CIW, newyddion iechyd a llesiant yn y gweithle a dolenni i ymgyrchoedd a digwyddiadau sydd i ddod. Rhannwch yr e-fwletin hwn gyda chydweithwyr a'ch rhwydweithiau.

Cliciwch yma i [gofrestru ar gyfer e-fwletinâu misol CIW ac i weld y rhifynnau blaenorol](#).



CW HWW | Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales

September 2023

Welcome to the Healthy Working Wales (HWW) E-bulletin

Providing updates from the HWW team, workplace health and wellbeing news and links to upcoming campaigns and events. Please share this e-bulletin with colleagues and your networks.

Click here to [sign up for monthly HWW e-bulletins and to view previous editions](#).

Safon 7 – Yn dilyn cwynion a dderbyniwyd i'r adran Sgrinio ynghylch eglurder y datganiad hygyrchedd mewn llythyrau apwyntiad Sgrinio ym mis Hydref 2022, cytunwyd ar ddatganiad newydd a'i fabwysiadu i'w ddefnyddio ar lythyrau apwyntiad sgrinio ym mis Ebrill 2024. Mae'r datganiad a argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg yn y Cod Ymarfer Drafft yn parhau i gael ei ddefnyddio ar draws pob gohebiaeth arall. Y datganiad newydd y cytunwyd arno i'w ddefnyddio gan Sgrinio yw:

'Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd yn cymryd yr un faint o amser i ni eich ateb, pa iaith bynnag a ddewiswch.

Rydym yn awyddus i ddefnyddio'r un datganiad ar draws ein holl ohebiaeth i sicrhau cysondeb, fodd bynnag, cododd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg rywfaint o amheuaeth ynghylch a yw ein datganiad newydd ar gyfer Sgrinio yn bodloni Safon y Gymraeg 7 yn llawn.

Byddwn yn parhau i weithio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i archwilio opsiynau pellach i ni fel bod gennym ddatganiad ar draws y sefydliad sy'n bodloni safon 7, yn ogystal ag anghenion ein cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth.

Ein Canllawiau Brand

Yn haf 2023, lansiodd ein Tîm Cyfathrebu Ganllawiau Brand newydd ar gyfer y sefydliad. Mae'r Canllawiau Brand yn arf allweddol i helpu i sicrhau cysondeb brand, gan wneud brand Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gryfach drwy wella ei adnabyddiaeth. Datblygwyd y canllawiau mewn partneriaeth â Thîm y Gymraeg ac mae canllawiau ar ein hunaniaeth brand dwyieithog wedi'u cynnwys yn y canllawiau eu hunain yn ogystal â thempledi dwyieithog ar gyfer llofnodion e-bost, adroddiadau, sleidiau PowerPoint a chefnidiroedd Teams. Anogir yr holl staff i ddefnyddio'r deunyddiau brand newydd i sicrhau cysondeb ac mae enghreifftiau o'r rhain isod.



Name

Rhagwag/Pronouns:
same.surname@wales.nhs.uk

Ffôn/Phone:

Cwrsio i'ch gwyboda â hi yn Gymraeg. Sgylidern yn
ymateb yn Gymraeg, ac ni fydd hyspoy'n arwain at
swell.

You are welcome to contact us in Welsh.
We will respond in Welsh, without
this causing delay.

Teitl Swydd

Iechyd Cyhoeddus Cymru
2 Capital Quarter,
Stryd Tynhall,
Caerdydd, CF10 4BZ

Gweithio gyda'n gilydd i
 greu Cymru iachach

Job title

Public Health Wales
2 Capital Quarter, Tynhall Street,
Cardiff, CF10 4BZ

Working together for a
healthier Wales



Safonau 8 – 18. Galwadau ffôn i'r sefydliad.

Mae ein prif dderbynfeydd yn cael eu staffio gan aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg a all ddelio â galwadau hyd nes y bydd angen eu trosglwyddo i gael cyngor arbenigol. Ar gyfer timau ar draws y sefydliad, rydym yn annog bod pob llinell ffôn a hysbysebwr yn mynd at siaradwr Cymraeg lle bo modd ac rydym yn annog pawb nad ydynt yn siarad Cymraeg i wybod pwy yn eu timau sydd â sgiliau Cymraeg fel y gellir anfon galwadau ymlaen yn ôl yr angen.

Mae gan ein Hwb Cymraeg ganllawiau a chymhorthion ar sut i gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau wrth ateb y ffôn ac mae ymadroddion ffonetig ar gael i'r holl staff eu defnyddio i'w cefnogi.

Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi datblygu cardiau ffonetig ar gyfer ateb y ffôn a gall Tîm y Gymraeg deilwra'r rhain yn ôl adran neu leoliad. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithio gyda chyflenwr allanol i ddarparu cardiau pabell i gynorthwyo staff i ateb y ffôn yn ddwyieithog ac i ddefnyddio ymadroddion a chyfarchion syml gyda chwsmeriaid a chydweithwyr. Bydd y rhain ar gael i'r holl staff presennol ac i staff newydd yn ein sesiynau cynefino.

Mae'r Is-adran Sgrinio wedi uwchraddio eu llinellau ffôn dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, ac mae opsiwn bellach i ofyn am siaradwr Cymraeg. Bellach gellir trosglwyddo galwadau o amgylch Cymru i sicrhau eu bod yn cael eu hateb yn yr iaith briodol.

I'n cynorthwyo i fodloni'r safonau sy'n ymwneud â gohebiaeth a galwadau ffôn, mae gennym Gronfa Ddata Dewis Iaith ar draws y sefydliad i hwyluso gohebu â chydweithwyr mewn sefydliadau eraill yn unol â'u dewis iaith. Cafodd y gronfa ddata ei llenwi yn sgil anfon neges at ein holl randdeiliaid i ofyn iddynt am eu dewis iaith ac mae ar gael drwy Hwb y Gymraeg. Rydym yn bwriadu gwerthuso'r gronfa ddata dros y flwyddyn nesaf ac edrych ar opsiynau eraill os bydd angen.

Cyfarfodydd a Digwyddiadau (Safonau 21 – 32)

Mae timau ar draws y sefydliad yn ymwybodol o ofynion Safonau 21-32 a, lle bo'n briodol, cesglir dewis iaith mynychwyr cyfarfodydd fel y gellir cynnal cyfarfodydd yn



naturiol yn Gymraeg neu gyda chymorth cyfieithydd lle bo angen. Mae'r holl ddigwyddiadau rydym yn eu cynnal ar gyfer aelodau'r cyhoedd yn cael eu trefnu'n ddwyieithog gyda dogfennau dwyieithog yn cael eu darparu.

Yn dilyn pandemig Covid-19, mae ein staff bellach yn gweithio'n hyblyg gyda rhyddid i weithio yn y ffordd orau iddyn nhw. Felly, cynhelir rhai cyfarfodydd â sefydliadau allanol wyneb yn wyneb yn un o'n swyddfeydd ledled Cymru neu gellir eu cynnal drwy Microsoft Teams. Trwy'r swyddogaeth cyfieithu ar y pryd ar Microsoft Teams, a ddaeth yn weithredol ym mis Hydref 2022, mae wedi bod yn bosibl i ni gynnal cyfarfodydd, digwyddiadau a chyfweliadau rhithwir yn ddwyieithog gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd ac mae wedi bod o gymorth mawr i ni fel sefydliad.

Cynhelir ein cyfarfodydd Bwrdd yn rheolaidd gyda chyfieithu ar y pryd a chynhaliodd ein rhwydwaith staff Cymraeg newydd, Ymlaen, a lansiwyd ym mis Mawrth 2023, ei ychydig gyfarfodydd cyntaf ar Teams gyda chymorth cyfieithydd, fel y gallai'r sgwrs ddigwydd yn naturiol yn Gymraeg. Ers hynny, fodd bynnag, mae wedi bod yn well gan y rhwydwaith gynnal eu cyfarfodydd yn naturiol ddwyieithog fel bod cyfranogwyr, a dysgwyr Cymraeg yn arbennig, yn cael cyfle i glywed y Gymraeg yn cael ei siarad ac i ymarfer eu sgiliau Cymraeg gydag eraill.

Mae adran Adnoddau ein tudalennau mewnwyd Cymraeg i staff yn cynnwys adran ar gyfarfodydd a digwyddiadau, sy'n cynnwys canllawiau ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd dwyieithog. Mae yna hefyd restr wirio ddefnyddiol o ran Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Gymraeg ar gyfer pob cynhadledd a gynhelir gan y sefydliad. Mae gwybodaeth ac arweiniad ar sut i ddefnyddio'r swyddogaeth cyfieithu ar y pryd o fewn Teams hefyd wedi'u rhannu â staff ac maent ar gael ar dudalennau'r fewnwyd Gymraeg.

Hyrwyddo neu hysbysebu ein gwasanaethau (Safon 33)

Fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, mae'n hanfodol ein bod yn hyrwyddo ac yn hysbysebu'r gwasanaethau a gynigiwn yn gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhai o'r gwasanaethau yr ydym yn eu hyrwyddo'n rheolaidd i'r cyhoedd yw:

- **Pwysau Iach Byw'n Iach:** Mae Pwysau Iach Byw'n Iach yn gynnig unigryw yn y Gymraeg, o gymharu â'r llu o adnoddau tebyg sydd ar gael yn Saesneg. Mae gan y rhaglen [wefan](#) a phlatfform cyfryngau cymdeithasol cwbl ddwyieithog ac mae'r cynnwys yn cael ei ddrafftio ar y cyd ar gyfer y gwefannau Cymraeg a Saesneg gan y siaradwyr Cymraeg yn y tîm, gan sicrhau bod y cynnwys yn ystyrlon yn y ddwy iaith yn hytrach na bod yn gyfieithiad uniongyrchol. Mae'r rhaglen wedi darlledu hysbysebion ar S4C a Radio Cymru a darlledwyd hysbysebion yn y Gymraeg yn unig yn Stadiwm Principality yn ystod gêm Cymru yn erbyn y Barbariaid.



➤ Rhaglen Afiechydon Ataliadwy trwy Frechu

Mae ein Rhaglen Afiechydon Ataliadwy trwy Frechu yn hyrwyddo eu holl wasanaethau imiwneiddio yn Gymraeg ar eu tudalen we: gig.cymru - [Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](http://gig.cymru)

Mae'r tîm yn creu adnoddau dwyieithog sy'n hyrwyddo manteision imiwneiddiadau, sy'n cynnwys y brechlyn MMR, brechlyn Covid-19 a brechlyn y fflwi. Mae enghreifftiau o rai o'r adnoddau hyn sydd ar gael yn Gymraeg i'w gweld isod (mae rhagor i'w gweld yma: [Iechyd Cyhoeddus Cymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](http://gig.cymru))

<p>Mae Brechu yn achub bywydau Vaccination saves lives</p>  <p>Sut i amddiffyn eich hun a'ch babi</p> <p>Gwybodaeth am frechiadau yn ystod beichiogrwydd</p> <p>GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales</p>	<p>Mae Brechu yn achub bywydau Vaccination saves lives</p>  <p>Brechlad COVID-19</p> <p>Canllaw i frechiad COVID-19 y gwanwyn</p> <p>GIG CYMRU NHS WALES</p>	<p>Mae Brechu yn achub bywydau Vaccination saves lives</p>  <p>Brechu HPV</p> <p>Amdiffyn rhag haint HPV er mwyn helpu i leihau eich risg o ganser</p> <p>GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales</p>
--	--	---

Mae'r tîm hefyd yn creu fideos i hyrwyddo imiwneiddiadau. Mae enghreifftiau o'r rhain i'w gweld isod:

Pwysigrwydd Brechlynnau: [Pwysigrwydd Brechlynnau | Iechyd Cyhoeddus Cymru - YouTube](http://gig.cymru)



Fideo Brechlyn y Ffliw i bobl ag anableddau dysgu: [Stori Rachel - cael brechlyn \(youtube.com\)](#)

➤ **Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant.**

Mae Cyfarwyddiaeth Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am lawer o feysydd gwaith, gan gynnwys yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd, yr Uned Atal Trais ac Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU).

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn hyrwyddo ei gwaith yn ddwyieithog ac mae enghreifftiau o rai o'r fideos a grëwyd gan y timau isod:

[Platfform Datrysiadau Teqwch Iechyd Cymru \(youtube.com\)](#)

[Animeiddiad WHESP \(youtube.com\)](#)

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

Adran arall sy'n dod o dan Ganolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd yw Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

Mae Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus yn banel cynrychioliadol cenedlaethol o 2,000-2,500 o bobl 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Sefydlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2022 fel y gallai'r cyhoedd ymgysylltu'n rheolaidd trwy arolygon ar faterion o bwysigrwydd iechyd cyhoeddus allweddol er mwyn llywio polisi ac ymarfer iechyd cyhoeddus. Mae sampl o 1,000 o bobl o leiaf, sy'n cynrychioli poblogaeth Cymru yn genedlaethol, yn cael ei sicrhau ar gyfer pob arolwg a gyflawnir. Mae samplu haenedig wedi'i gymhwyso i ddaearyddiaeth (bwrdd iechyd), oedran, rhyw, cwintel amddifadedd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru), ac ethnigrwydd. Yn ystod y cyfnod recriwtio craidd cychwynnol, gwahoddwyd aelodau'r panel i gymryd rhan trwy gyfweiliadau ffôn, cyfweiliadau wyneb yn wyneb, neu gwblhau'r arolwg eu hunain ar-lein.

Ar y cychwyn, gofynnir iddynt ym mha iaith, Cymraeg neu Saesneg, yr hoffent gwblhau'r arolygon. Gofynnir amrywiaeth o gwestiynau demograffig i aelodau'r panel, gan gynnwys eu hyfedredd yn y Gymraeg. Ar ôl eu recriwtio, gofynnir i aelodau'r panel a hoffent gymryd rhan mewn arolygon yn y dyfodol dros y ffôn neu ar-lein. Mae recriwtio i'r panel yn digwydd yn barhaus trwy hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol (pawb a grwpiau poblogaeth wedi'u targedu) a chyfweiliadau wyneb yn wyneb (grwpiau poblogaeth wedi'u targedu). Anfonir yr holl ddeunyddiau recriwtio yn ddwyieithog at holl aelodau'r panel.

Yn 2023-2024, cynhaliwyd chwe arolwg gan ddilyn trefn cynnal bob yn ail fis (Ebrill, Mehefin, Awst, Hydref, Rhagfyr, a Chwefror), gydag adroddiadau dwyieithog yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg yn cael eu cyhoeddi tua chwe wythnos ar ôl cwblhau'r gwaith casglu data. Mae'r arolygon wedi ymdrin ag ystod o feysydd megis y menopos, sgrinio, trais gan wylwyr, y newid yn yr hinsawdd, gofal sylfaenol, iechyd deintyddol, a gofal iechyd. Mae sylw'r cyfryngau i'r rhaglen waith wedi'i gyflwyno ar blatfformau Cymraeg a Saesneg (e.e. Radio Cymru a Radio Wales). Mae'r tîm hefyd wedi cysylltu â rhanddeiliaid ledled Cymru ac wedi rhannu deunyddiau dwyieithog i'w dosbarthu ymhellach o fewn rhwydweithiau rhanddeiliaid. Yn ogystal, mae'r tîm wedi cynnal a mynychu gweithdai sydd wedi cynnwys rhannu deunyddiau dwyieithog a sgwrsio ag aelodau'r cyhoedd am y rhaglen waith a'u gallu i gymryd rhan.

Mae rhagor o wybodaeth am Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus ar ein gwefan:

[Panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](http://gig.cymru)

MAE'N AMSER I SIARAD IECHYD CYHOEDDUS
SGWRS GENEDLAETHOL NEWYDD

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru eisiau deall eich barn a'ch agweddau am bynciau iechyd cyffredol.

Mae'r arolygon yn...
Pob yn ail mis
Arlein neu dros y ffôn
10-15 munud

Pynciau enghreifftiol wedi'u cynnwys hyd yn hyn...
16+ oed? Byw yng Nghymru?
Eich Cymru • Eich Iechyd • Eich Llais

Mynegwch eich barn a helpu i lywio polisi cyhoeddus i Gymru!

SCAN I YMUNO

Am ddim oed awr y flwyddyn, fe allech chi ddylanwadu ar bolisiau iechyd cyhoeddus yng Nghymru!

www.bit.ly/AmseriSiaradIC

GIG Cymru NHS Wales
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales
Data collection by djs

IT'S TIME TO TALK PUBLIC HEALTH
A NEW, NATIONAL CONVERSATION

Public Health Wales wants to understand your opinions and attitudes about current health topics

Surveys are...
Every other month
Online or by phone
10-15 minutes

Example topics included so far...
Vaccines
Mental health
Cost of living
Violence
Gambling
Menopause

Age 16+ years? Live in Wales?
Your Wales • Your Health • Your Voice

Have your say & help shape public health policy for Wales!

SCAN TO JOIN

For just one hour a year, you could influence public health policies in Wales!

www.bit.ly/TimeToTalkPH

GIG Cymru NHS Wales
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales
Data collection by djs

Fideo i hyrwyddo gwaith Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus:

Cymraeg: [Amser i Siarad ar Vimeo](#)

Deunyddiau rydym yn eu cynhyrchu a'u harddangos yn gyhoeddus (Safon 34)

Pan fyddwn yn arddangos deunyddiau rydym wedi'u cynhyrchu yn gyhoeddus, bydd y rhain bob amser yn cael eu harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Tîm y Gymraeg yn cynghori staff i greu dogfennau dwyieithog lle y bo'n bosibl, gyda'r ddwy iaith yn cael eu harddangos gyda'i gilydd. Pan na fydd hyn yn bosibl oherwydd maint y ddogfen neu faint o destun sydd ynddi, bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn cael eu creu a'u harddangos.

Isod, mae rhai enghreifftiau o'r deunyddiau sgrinio rydym yn eu cynhyrchu sy'n cael eu harddangos mewn meddygfeydd:



Dogfennau (Safon 37)

Mae dogfennau yr ydym yn eu cynhyrchu fel sefydliad, ac sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru, yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Enghraifft o hyn yw llyfryn newydd ei lansio, Pob Plentyn / Every Child, sydd ar gael ar wefan Pob Plentyn: [Hafan dudalen | Pob Plentyn \(pobplentyn.cymru\)](http://pobplentyn.cymru) Mae'r dogfennau'n fawr ac yn rhan o gyfres, felly mae fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân wedi eu creu gyda'r fersiwn Saesneg yn nodi'n glir bod fersiwn Gymraeg ar gael hefyd.



Yn dilyn yr asesiad yn unol â safon 37, mae'r Tîm Diogelu Iechyd wedi cyhoeddi eu Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefyddau Trosglwyddadwy yn Gymraeg am y tro cyntaf, gan sicrhau bod ein partneriaid yn Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd a sefydliadau allanol eraill yn gallu cyrchu'r ddogfen yn eu dewis iaith.

Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod rhai o'r dogfennau a arddangoswn ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac rydym yn mynd i'r afael â'r rhain fel rhan o'r gwaith ar ein gwefannau (manylion pellach dan safon 39).

Mae Tîm y Gymraeg yn derbyn llawer o ymholiadau am Safon 37 a'r angen i asesu a oes angen i ddogfen fod ar gael yn Gymraeg, yn dibynnu ar y pwnc dan sylw a'r gynulleidfa arfaethedig a'u disgwyliadau. Yn aml, daw'r ymholiadau hyn o feysydd ar draws y sefydliad sy'n delio â dogfennau meddygol cymhleth iawn. Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes lle mae angen arweiniad neu eglurder pellach a byddwn yn gweithio i ddarparu hyn, gyda chefnogaeth swyddfa Comisiynydd y Gymraeg gobeithio, dros y flwyddyn nesaf.

Cyfathrebu electronig (Safonau 39–46)

Gwefannau

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfrifoldeb am lawer o wefannau, gan gynnwys ein gwefan gorfforaethol:

[Hafan - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(qiq.cymru\)](http://qiq.cymru)



The screenshot shows the website header with the GIG Cymru NHS Wales logo and navigation menus. Below the header, there is a search bar and a 'Gwranddo' button. The main content area features a section titled 'Croeso i Iechyd Cyhoeddus Cymru' with a sub-header 'Ni'n gweithio i amddiffyn a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru.' Below this, there are three featured cards:

- Gwybodaeth Brechlynnau**: Gwybodaeth am frechiadau yng Nghymru.
- Sgrinio**: Rhaglenni sgrinio cenedlaethol sy'n seiliedig ar boblogaeth ledled...
- Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru Iachach**: Gweithio tuag at Gymru lle mae pobl yn byw bywydau hirach, iachach.

Ochr yn ochr â'n gwefan gorfforaethol, rydym yn gyfrifol am nifer o wefannau eraill, gan gynnwys:

[Hafan - Helpa Fi i Stopio](#)

[Hafan - Pwysau Iach Byw'n Iach;](#)

a Phob Plentyn: [Pob Plentyn | Pob Plentyn \(pobplentyn.cymru\)](#)

Mae togl iaith ar bob tudalen ar ein gwefannau fel bod defnyddwyr yn gallu symud rhwng y cynnwys Cymraeg a Saesneg yn rhwydd ac mae'r dewislenni a'r rhyngwynebau ar ein tudalennau gwe ar gael yn Gymraeg.

Ar ddiwedd ein cyfnod adrodd diwethaf ym mis Mawrth 2023, roeddem wedi derbyn ymchwiliad gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar y gwefannau sydd o dan ein rheolaeth. Yn dilyn archwiliad o sampl o'r gwefannau hynny yn gynnar yn 2023, nododd Comisiynydd y Gymraeg bod angen gwelliannau i safon a chywirdeb testun a gwybodaeth Gymraeg ar draws ein gwefannau.

Rhwng Ionawr a Mawrth 2023, fe wnaethom gychwyn ein harchwiliad mewnol ein hunain hefyd o'n holl wefannau. Cynhaliom y gwaith hwn fel rhan o adolygiad ehangach o'n holl wefannau i gael gwell dealltwriaeth o ddefnyddwyr ein gwefannau, eu hanghenion a pha mor dda y mae'r anghenion hynny'n cael eu diwallu. Un o ganlyniadau allweddol y gwaith hwn oedd adolygiad technegol cynhwysfawr a oedd yn cynnwys cynnal archwiliadau o'r gwefannau o ran hygyrchedd, defnyddioldeb a chydymffurfedd â safonau'r Gymraeg.

Roedd canfyddiadau archwiliadau'r Gymraeg yn dangos cydymffurfedd amrywiol â safon 39 ar draws y gwefannau a dychwelwyd ymateb, a oedd yn cynnwys cynllun gweithredu manwl ar sut y byddem yn mynd i'r afael â'r problemau, i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Medi.

Cafodd Swyddog Cynnwys Digidol llawrydd, Cymraeg ei iaith, ei recriwtio i gefnogi'r gwaith ar y gwefannau ac mae gwelliannau mawr eisoes wedi'u gwneud ar draws yr holl gwefannau. Rydym yn cydnabod maint y gwaith sydd angen ei wneud, y bydd yn cymryd nifer o fisoedd, a blynyddoedd o bosibl, i'w ddatblygu a'i roi ar waith wedi hynny. Mae Tîm y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'n Timau Cyfathrebu ac maent yn rhan o waith dylunio a gweithredu'r holl brosesau newydd ar gyfer cyhoeddi cynnwys Cymraeg ar y we. Fel y nodir yn ein targedau ar gyfer 2024 – 2025, byddwn yn parhau i weithio ar wella ein cynnwys Cymraeg ar y we fel blaenoriaeth dros y flwyddyn nesaf.



Bydd yr ymchwiliad hwn a'n harchwiliad mewnol ein hunain yn cael effaith gadarnhaol ar ein cynnwys Cymraeg ar y we i'r dyfodol ac rydym yn ddiolchgar i'r materion hyn gael eu dwyn i'n sylw.

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae ein Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gennym gyfrifon Twitter Cymraeg a Saesneg cyfochrog @IechydCyhoeddus ac @PublicHealthW, a thudalennau Facebook:

www.Facebook.com/IechydCyhoeddusCymru
www.Facebook.com/PublicHealthWales.

Rydym yn cyhoeddi postïadau ar y cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd.



Iechyd Cyhoeddus Cymru
1 Feb · 🌐
#NEWYDDION 📢 Rhaglen archwilio iechyd deintyddol plant ddiweddar yn dangos bod cyfran y plant ifanc yng Nghymru sydd â phrofiad... See more

Public Health Wales
1 Feb · 🌐
#NEWS 📢 A recent child dental health inspection programme has shown that the proportion of young children in Wales with experience of toot... See more



Ar ein platfformau cyfryngau cymdeithasol dwyieithog, er enghraifft LinkedIn, YouTube ac Instagram, rydym yn postio yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

Rydym yn rhannu diwrnodau cenedlaethol a diwrnodau dathlu yn rheolaidd ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, rydym wedi defnyddio ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i ddathlu ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg, Wythnos Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru, a wnaeth gynnwys ein gwobr Dysgwr y Flwyddyn, a Dydd Gŵyl Dewi:

Dydd Gŵyl Dewi:



Ymgyrch 'Defnyddia Dy Gymraeg':

Iechyd Cyhoeddus Cymru 3 h · 🌐

#DefnyddiaDyGymraeg | Os mai Cymraeg yw eich iaith gyntaf, mae gennych yr hawl i'w defnyddio 🇬🇧.

Gallwch wneud hyn gyda ni:

- 📄 Dros y ffon
- ✉️ Gallwch ysgrifennu atom drwy'r post, e-bost, neu gyfryngau cymdeithasol
- 🌐 Ar ein gwefan Gymraeg
- 👤 Neu unrhyw le y gwelwch y logo Cymraeg

Public Health Wales 11 Dec 2023 · 🌐

#DefnyddiaDyGymraeg | If Welsh is your first language, you have the right to use it 🇬🇧.

You can do this with us:

- 📄 Over the phone
- ✉️ In writing via letter, email, or social media
- 🌐 On our Welsh website
- 👤 Anywhere you see the Cymraeg logo

Did you know we also have a dedicated Welsh Language page? Follow us on [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

Wythnos Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru:

Public Health Wales 3 d · 🌐

Yesterday we awarded Mike with our Welsh Language Learner of the Year award. 🇬🇧

Mike, who is originally from Canada, but now lives in Cardiff has been learning Welsh since 2020, originally as a way to fill his spare time during the pandemic.

He then applied for a job at Public Health Wales and realised this was his opportunity to commit to the language. 🇬🇧

When asked why he kept learning Welsh Mike said, "As someone who has been welcomed into Wales, I have a responsibility to not only learn the language but to use it and support it wherever I can."

I love finding any opportunity to speak Welsh, when I meet someone else who is wearing a badge or lanyard - it's always the highlight of my day. It's been a great opportunity to learn, socialise and promote Welsh culture at the same time!"

Llongyfarchiadau, Mike! 🇬🇧

Yn dilyn cwyn a gawsom ym mis Ebrill 2023 gan aelod o'r cyhoedd ynghylch rhywfaint o'n cynnwys corfforaethol Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, rydym wedi gwneud gwelliannau cadarnhaol i'r wybodaeth sefydlog ar ein platfformau cyfryngau cymdeithasol a'r wybodaeth a'r newyddion rydym yn eu postio.

Mae adrannau eraill o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn rheoli eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu hunain, megis Cymru Iach ar Waith, Pwysau Iach Byw'n Iach, a Chynllun Gwên Cymru, sydd ar gael ac yn cael eu diweddarau yn Gymraeg a Saesneg.

Arwyddion a gwasanaethau derbynfa (Safonau 47–53)


Mae'r holl arwyddion a hysbysiadau a arddangosir gennym i aelodau'r cyhoedd yn cael eu harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae pob arwydd newydd ar gyfer ein staff mewn swyddfeydd hefyd yn cael eu harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r mwyafrif helaeth o'n harwyddion sy'n bodoli ers cyn Safonau'r Gymraeg yn ddwyieithog a, lle mae arwyddion parhaol yn uniaith Saesneg, rydym yn gosod arwyddion dwyieithog yn eu lle pan fydd angen eu diwygio neu eu hadnewyddu oherwydd cyflwr gwael.

Mae Tîm y Gymraeg wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Cyfleusterau i sicrhau bod yr holl arwyddion dros dro a parhaol yn cael eu harddangos yn ddwyieithog. Ar adegau, rydym yn wynebu problemau gyda'n landlordiaid a heriau o ran arddangos arwyddion dwyieithog, ond byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r rhain yn ôl yr angen.

Deunyddiau Iaith Gwaith

Mae posteri a sticeri finyl 'Iaith Gwaith' Comisiynydd y Gymraeg yn cael eu harddangos yn ein prif dderbynfa yn y Capital Quarter yng Nghaerdydd. Mae posteri hefyd wedi'u rhannu â swyddfeydd a labordai eraill ledled Cymru ac mae bathodynau a laniardau 'Iaith Gwaith' ar gael i'r holl staff. Bellach mae ffurflen archebu ar-lein syml y gall staff ei defnyddio i gael deunyddiau 'Iaith Gwaith', (fersiynau 'siaradwr' a 'dysgwr'), ac mae fersiynau electronig o'r logos ar gael i staff eu llwytho i lawr.



Ein derbynfa yn Rhif 2, Capital Quarter, Caerdydd.

Mae gan y canllawiau brand newydd (gwybodaeth bellach o dan Safon 7) dempledi sy'n cynnwys logo Iaith Gwaith i staff ei ddefnyddio ar eu llofnodion e-bost ac ar gefndir Teams. Mae fersiwn Cymraeg a fersiwn Dysgu Cymraeg ar gael i staff eu lawrlwytho a'u defnyddio.



Mae'r holl swyddi gwag ar gyfer staff sy'n gweithio mewn derbynfydd yn parhau i gael eu hysbysebu fel rhai 'Cymraeg yn hanfodol', ond rydym yn aml yn wynebu heriau wrth recriwtio i'r swyddi hyn. Mae Tîm y Gymraeg yn gweithio gyda'r Tîm Cyfleusterau, sy'n rheoli'r broses o recriwtio ein derbynyddion, i gefnogi'r broses recriwtio a rhannu'r rolau ar blatfformau recriwtio Cymraeg.

Grantiau a contractau (Safonau 54–64)

Mae'r holl grantiau yr ydym yn eu rheoli fel sefydliad yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau perthnasol.

Mae gwaith a wnaed yn flaenorol ym maes caffael wedi arwain at gryfhau cyngor ar ystyriaethau o ran y Gymraeg a'i gynnwys mewn canllawiau caffael safonol. Mae canllawiau llawn ar arfer gorau wrth amlinellu gofynion Cymraeg mewn dogfennau manyleb, gan gynnwys enghreifftiau wedi'u gweithio a chyngor ar wreiddio sicrwydd ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg wrth reoli'r contractau, ar gael ar dudalennau mewn rwyd Hwb y Gymraeg.

Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn i sicrhau bod pob contract yn y dyfodol, yn enwedig y rhai ar gyfer gwasanaethau ar-lein, yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar anghenion iaith Gymraeg y sefydliad. Byddwn yn parhau i wella ein gwaith yn y maes hwn ac i rannu negeseuon gyda staff ynglŷn â'r Gymraeg a chaffael fel bod unrhyw contractau newydd yn cydymffurfio'n llawn â safonau'r Gymraeg.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi ein gwasanaethau cyfieithu Cymraeg ar dendr, gan wahodd cyflenwyr i gyflwyno tendr i gwblhau gwaith cyfieithu ar gyfer y sefydliad.

Cyhoeddir holl ddogfennau'r Gwahoddiad i Dendro yn Gymraeg a Saesneg a gwahoddir cyflenwyr i gyflwyno ymatebion yn Gymraeg os dymunant.

Gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd:

Gellir cynnal ein harolygon ymgysylltu â'r cyhoedd wyneb yn wyneb (o ddrws i ddrws), dros y ffôn ac ar-lein. Cynhelir yr arolygon gan gyflenwr ar contract, wedi'i gomisiynu i wneud y gwaith yn ddwyieithog, a chynigir y cyfle i gyfranogwyr adeg y pwynt cyswllt cyntaf p'un a hoffent ateb yr arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg. Cynhyrchir holl ddeunyddiau'r arolwg, ffurflenni a llenyddiaeth ategol yn ddwyieithog.



Ymgyrchoedd

Fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, rydym yn cynnal llawer o ymgyrchoedd dros y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth gyda'r nod o wella iechyd pobl Cymru.

Enghraifft o ymgyrch o'r fath a gynhaliwyd yn ystod gaeaf 2023/2024 oedd ein hymgyrch brechlyn ffliw. Fe wnaeth yr ymgyrch gynnwys gwybodaeth a gwaith celf a rannwyd ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, ein gwefan a gyda'n cydweithwyr mewn sefydliadau Iechyd ledled Cymru i hyrwyddo'r pwysigrwydd bod y rhai sy'n gymwys yn derbyn brechlyn y ffliw. Mae enghreifftiau o ddeunyddiau'r ymgyrch i'w gweld gyferbyn:



Ein Hunaniaeth Gorfforaethol (Safon 62)

Ein henw Cymraeg sy'n dod yn gyntaf ar hunaniaeth gorfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Adlewyrchir hyn hefyd mewn brandiau eraill sy'n rhan o waith y sefydliad. Mae rhai enghreifftiau o hyn isod:



Pan fyddwn yn cynhyrchu deunyddiau sy'n hyrwyddo ein hunaniaeth gorfforaethol mewn unrhyw ffordd, mae'r rhain bob amser yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg yn gyntaf. Mae ein canllawiau brand newydd hefyd yn sicrhau bod gan staff dempled i'w defnyddio sy'n sicrhau bod y testun Cymraeg ar ddeunyddiau a dogfennau bob amser yn ymddangos i'r chwith i'r Saesneg neu uwchben y Saesneg.



Lle rydym wedi nodi bod y testun Saesneg yn gyntaf mewn logos a brandio ar hyn o bryd, caiff y rhain eu diweddarau cyn gynted â phosibl.

Mae gan bob cyfeiriad e-bost a grëwyd ers 2019, sydd i'w ddefnyddio gan aelodau'r cyhoedd i gael at ein gwasanaethau, fersiwn Gymraeg wedi'i chreu yn ddiodyn. Mae'n bosibl nad oes gan rai cyfeiriadau e-bost hŷn, a oedd yn bodoli cyn Safonau'r Gymraeg, fersiwn Gymraeg ond maent yn cael eu diweddarau gan ein cydweithwyr TG.

Safonau Lluio Polisi (65-77)

Mae'r Gymraeg yn rhan o'n proses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ac ar Iechyd (EHIA) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n rhaid i awduron pob polisi newydd ar gyfer staff gwblhau ein templed EHIA, a'i atodi i'r polisi dan sylw i'w gymeradwyo gan ein Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (PODCOM).

Yna caiff pob EHIA a gwblhawyd ei gyhoeddi ar ein tudalen polisiâu a gweithdrefnau ar ein gwefan gyda'r polisi cyfatebol: [Polisiâu a Gweithdrefnau - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](#)

Dilynir yr un broses ar gyfer penderfyniadau polisi, megis newidiadau i wasanaethau, gyda dogfen EHIA yn cael ei chwblhau a chwestiynau'n cael eu hateb ar y Gymraeg. Yna, caiff yr EHIA a gwblhawyd ei gyflwyno i Gyfarfod Gweithredol Busnes at ddiben craffu. Mae holl Weithredwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys yr Arweinydd Gweithredol ar gyfer y Gymraeg, yn rhan o'r broses graffu.

Anogir staff i gwblhau templed EHIA: [Templed Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a Chydraddoldeb diwygiedig ICC](#) ar gyfer penderfyniadau polisi ac mae copi o'r asesiad ar gael ar dudalennau mewnwyd Hwb y Gymraeg i sicrhau bod penderfyniadau polisi yn ystyried yr effaith yn llawn ar yr iaith Gymraeg.

^ Safonau Lluio Polisi (69-77)

Mae'n gyfrifoldeb arnom i ystyried pa effaith y bydd eu penderfyniadau yn ei gael ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r safonau llunio polisi yn gofyn inni ystyried yr effaith ar y Gymraeg, ac ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, pan fyddwn yn llunio neu yn adolygu polisiâu, pan fyddwn yn ymgynghori ar benderfyniadau polisi a phan fyddwn yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil.

Mae gwybodaeth ar y safonau perthnasol ar dudalennau 15-17 o'n [Hysbysiad Cydymffurfio](#) (Safonau 69-77)

Gallwn sicrhau ein bod yn asesu effaith ein polisiâu, ymgynghoriadau ar benderfyniadau polisi a gwaith ymchwil ar y Gymraeg drwy gwblhau [Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Iechyd](#) (sy'n cynnwys gwybodaeth ar y Gymraeg ar dudalen 7) pan fyddwn yn rhan o'r prosesau hyn.

Ers seminar Comisiynydd y Gymraeg ar y Safonau Lluio Polisi yn ystod gaeaf 2023, rydym wedi cyhoeddi canllaw byr i'n staff i'w cynorthwyo wrth gynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Mae'r canllawiau ar dudalennau'r Gymraeg ac ar dudalennau Rheoli Pobl Trwy Newid ar fewnrwyd y staff. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu datblygu ymhellach wrth i'r Hwb Llywodraethu isod gael ei ddatblygu.

Cyhoeddir pob dogfen ymgynghori yn ddwyieithog ac anogir a chroesewir ymatebion yn Gymraeg. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyhoeddi un



ddogfen ymgynghori yn gysylltiedig â phenderfyniad polisi ac roedd hon yn ymwneud â'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol: [Amcanion Cydraddoldeb Strategol – Ymgynghoriad cyhoeddus yn agor - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](#)

Mae cwestiwn 7 yn y ddogfen ymgynghori yn gofyn cwestiynau penodol am yr effaith ar y Gymraeg: [Ymgynghoriad Cyhoeddus ar ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol.doc \(live.com\)](#)

Ymatebion i ymgynghoriadau

Mae'r Tîm Polisi yn gyfrifol am gydlynu ymatebion sefydliadol i Ymgynghoriadau Polisi. Cyflwynwyd dau ymateb o'r fath i ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Mewn rhai achosion, bydd cynnwys ymateb i ymgynghoriad yn cynnwys casglu gwybodaeth oddi wrth nifer o dimau/cyfarwyddiaethau. Mae'r Tîm Polisi yn gyfrifol am sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ymchwil

Rydym yn annog darpariaeth Gymraeg mewn gweithgareddau ymchwil a gwerthuso o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae ein holl ddogfennaeth ymchwil a gwerthuso ar gael yn Gymraeg a Saesneg a chroesewir ymatebion yn y naill iaith neu'r llall.

Pan fyddwn yn gwneud ymchwil dros y ffôn trwy gwmni Ymchwil Marchnad allanol, darperir sgriptiau dwyieithog i gynnig y dewis i aelodau'r cyhoedd ymgymryd â'r ymchwil yn Gymraeg neu yn Saesneg. Yna caiff dewis iaith unigolion ei gofnodi ar gyfer galwadau yn y dyfodol neu alwadau dilynol ar gyfer unigolion y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt.

Wrth gomisiynu darparwyr allanol ar gyfer gweithgareddau ymchwil rydym yn gofyn iddynt roi ystyriaeth a gwneud darpariaeth briodol ar gyfer ymchwil a gwerthuso yn y Gymraeg. Er enghraifft, roedd ymchwil ansoddol a gomisiynwyd yn ddiweddar i brofiadau pobl ifanc o geisio cymorth pan oeddent mewn trallod iechyd meddwl yn cynnwys cyfweiliadau ansoddol a gynhaliwyd yn Gymraeg. Bydd y canfyddiadau yn llywio ein rhaglen ymchwil yn y maes hwn.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Cyn bo hir byddwn yn treialu Hwb Llywodraethu newydd ar gyfer y sefydliad a fydd yn grŵp cynghori yn cynnwys arbenigwyr o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gweithio gyda dyletswyddau deddfwriaethol amrywiol. Bydd Tîm y Gymraeg yn rhan o'r Hwb Llywodraethu, ochr yn ochr â chydweithwyr sy'n gweithio ym meysydd Cydraddoldeb, Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a byddant yn rhan o'r broses graffu ar bob penderfyniad polisi yn y dyfodol. Gan fod hon yn fenter newydd i ni, bydd yr Hwb Llywodraethu yn cael ei dreialu am 6 mis cychwynnol a bydd gwybodaeth a chanllawiau i staff ar



gwblhau asesiad effaith ar y Gymraeg yn cael eu diweddarau yn ystod y cyfnod hwnnw.

Safonau Gweithredu (79-114)

Defnydd mewnol o'r Gymraeg (Safonau 79–95)

Mae'r Gymraeg yn cael lle blaenllaw yn ein Strategaeth Bobl 2020–30: Ein Gweithlu i wireddu dyfodol iachach i Gymru'.

Mae'n nodi bod angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- ddenu arbenigwyr pwnc gyda sgiliau Gymraeg lefel uchel mewn rolau rheng flaen
- blaenoriaethu nodi bylchau mewn sgiliau, recriwtio a dysgu Gymraeg i sicrhau bod gennym ddigon o siaradwyr Gymraeg mewn rolau rheng flaen
- cefnogi defnyddwyr data ar amrywiaeth a'r Gymraeg i helpu i fonitro'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau ac adolygu anghydraddoldebau iechyd a darpariaeth Gymraeg
- cefnogi ein gweithwyr i ddefnyddio rhyngwynebau a meddalwedd Gymraeg
- deall effaith gofynion y Gymraeg ar ein gallu i ddenu a recriwtio
- denu carfan doreithiog o ymgeiswyr ar gyfer pob swydd wag, gan gynnwys niferoedd digonol o siaradwyr Gymraeg
- cynyddu gallu a chapasiti yn gysylltiedig â sgiliau Gymraeg
- sicrhau bod darpariaeth glir, gynaliadwy, wedi'i thargedu ar gael i weithwyr ar gyfer caffael, datblygu a chefnogi sgiliau Gymraeg, yn seiliedig ar anghenion gwasanaeth a deilliannau a nodir.

Polisi ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg (Safon 79)

Un o'r targedau a amlygwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd oedd yr angen i ni gyhoeddi ein Polisi ar y Defnydd Mewnol o'r Gymraeg, i fodloni safon 79.

Cyhoeddwyd ein polisi ar dudalen Iaith Gymraeg ein gwefan ym mis Medi 2023:

[Polisi ar y Defnydd Mewnol o'r Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

Yn hytrach nag edrych ar elfen ddeddfwriaethol a chydymffurfedd y Gymraeg yn y gweithle, mae'r polisi'n edrych ar y diwylliant dwyieithog cryf sy'n bodoli yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn annog ein staff, bob amser, i gofleidio'r Gymraeg a defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt i ddysgu a datblygu eu sgiliau Gymraeg wrth weithio. Mae crynodeb o'r cyfleoedd sydd ar gael i'n staff wedi'i amlinellu isod:



Cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

➤ Rhwydwaith Ymlaen i'r staff

Ar Ddydd Gŵyl Dewi 2024, dathlodd Ymlaen – Rhwydwaith Iaith Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru, ei ben-blwydd cyntaf. Yn ein blwyddyn gyntaf, rydym wedi cyflawni llawer. Rydym wedi tyfu i 94 o aelodau, gyda rhaniad gweddol gyfartal rhwng siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg, gan ddangos ein bod yn rhwydwaith cynhwysol i unrhyw un sy'n rhannu ein hangerdd a'n cariad at ein hiaith a'n diwylliant. Credwn fod hyn yn ein gwneud yn gynrychioliadol o boblogaeth ehangach Cymru, yn gymysgedd o bob lefel o'r Gymraeg ac, yn bwysig, yn rhoi mwy o gyfleoedd i'n haelodau sy'n dysgu Gymraeg ymarfer eu sgiliau Gymraeg.

Yn 2023, cynhaliom ddigwyddiadau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Shwmae, a chynhaliom gyfarfodydd anffurfiol gydag aelodau i wella a chryfhau ein rhwydweithiau Cymraeg. Ar ddechrau 2024, fe wnaethom gyflwyno ein nodau ar gyfer y flwyddyn i'r bwrdd. Cawsom ymateb cefnogol iawn ac, ers hynny, rydym wedi cyfarfod â Neil Lewis, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, i drafod sut y gall Iechyd Cyhoeddus Cymru wella ei ddefnydd o'r Gymraeg a sut mae'n hyrwyddo'r Gymraeg, er budd ein staff a defnyddwyr ein gwasanaethau, dros y blynyddoedd i ddod.


Ym mis Mawrth eleni, fel rhan o'n dathliadau Dydd Gŵyl Dewi ac Wythnos y Gymraeg, buom yn cydweithio â'n cyd-rwydwaith staff, Enfys, i drefnu i'r awdur a'r artist drag o Gymru, Alun Saunders, siarad â'r staff am ei gariad at yr iaith, a'i brofiadau o weithio yng Nghymru fel dyn hoyw. Ar gyfer ein cyfarfod ym mis Mai, rydym wedi trefnu i ddau gydweithiwr o Lywodraeth Cymru ddod i siarad â staff Iechyd Cyhoeddus Cymru am y nod o gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, rhywbeth y mae pawb yn Ymlaen yn angerddol amdano. Mae digwyddiadau eleni wedi bod yn ddiddorol ac yn llwyddiannus iawn, ac rydym am adeiladu ar hyn gan anelu at gynnal o leiaf 3 digwyddiad ychwanegol i siaradwyr gwadd dros y 12 mis nesaf, yn ogystal â digwyddiadau ychwanegol i ddathlu digwyddiadau diwylliannol pwysig, a chryfhau'r perthnasoedd cymdeithasol a gwaith hynny.

Rydym hefyd yn falch iawn o barhau i weithio gyda Meng Khaw, ein noddwr gweithredol sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio. Mae Meng yn gefnogol iawn i'r iaith ac mae'n wych cael cynrychiolaeth ar Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fel gyda'n holl Rhwydweithiau staff, mae gan Ymlaen gyllideb flynyddol i gefnogi'r rhwydwaith â gweithgareddau datblygu a hyrwyddo'r iaith yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

➤ Cylchlythyr misol y Gymraeg

Mae Tîm y Gymraeg yn cyhoeddi cylchlythyr misol i staff. Pwrpas y cylchlythyr yw codi ymwybyddiaeth gyffredinol o'r iaith ar draws ein gweithlu ac mae'n cynnwys eitemau fel: Gwybodaeth i ddysgwyr Cymraeg; gair i gall am y Gymraeg; safon y mis; erthyglau diddorol; digwyddiadau sydd i ddod ac o ble y gall staff gael cefnogaeth ac arweiniad.

Cyhoeddwyd y cylchlythyr am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2023 ac mae wedi cael croeso brwd gan y staff. Mae Tîm y Gymraeg yn rhannu'r cylchlythyr trwy aelodau Grŵp y Gymraeg, rhwydwaith Ymlaen i staff ac ar ein sianeli Teams.



➤ Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg

Rhwng 27 Tachwedd ac 11 Rhagfyr 2023, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ei ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg gyntaf i'n hannog i ddefnyddio ein sgiliau Cymraeg bob dydd. Dathlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr ymgyrch mewn amrywiol ffyrdd:

- ❖ Fe wnaethom newid logo Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol Saesneg i gynnwys y logo iaith Gwaith ar gyfer cyfnod yr ymgyrch
- ❖ Defnyddiom ni ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i annog mwy o ddilynwyr i'n safle facebook Cymraeg (mae gennym ni 1.2 fil o ddilynwyr ar ein tudalen Gymraeg ar hyn o bryd o gymharu â 230 mil ar ein tudalen Saesneg)
- ❖ Fe wnaeth y Gyfarwyddiaeth Gwella Iechyd hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael trwy Helpa Fi i Stopio a Phwysau Iach Byw'n Iach, gan annog siaradwyr Cymraeg i gael eu gwasanaethau yn Gymraeg
- ❖ Buom yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill GIG Cymru i gynnal cyfres o ddigwyddiadau, a gynhaliwyd gan weithwyr proffesiynol y GIG, ar gyfer staff yn Gymraeg. Cyflwynwyd dwy o'r sesiynau hyn gan staff Iechyd Cyhoeddus Cymru; roedd un sesiwn yn egluro ein gwaith yn ystod y pandemig a'r llall yn bwrw golwg ar bwysigrwydd cynnwys siaradwyr Cymraeg mewn gweithgareddau ymchwil defnyddwyr. Roedd pob sesiwn yn agored i holl staff GIG Cymru.



- **Ymweliad Efa Gruffydd Jones â Rhif 2 Capital Quarter**
Ar 7 Rhagfyr, estynnem groeso i Efa Gruffydd Jones, Comisiynydd y Gymraeg, i'n pencadlys yng Nghaerdydd. Roedd ein Prif Weithredwr, Is-Gadeirydd ac arweinwyr sy'n gyfrifol am y Gymraeg yn bresennol. Rhoesom gyflwyniad ar arfer da a chynlluniau ar gyfer y dyfodol o bob rhan o'r sefydliad a thrafoddom rai o'n heriau presennol. Roedd yn gyfarfod cadarnhaol iawn ond anffurfiol, a gobeithiwn adeiladu arno dros y blynnyddoedd nesaf.

➤ **Wythnos Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Rhwng 26 Chwefror ac 1 Mawrth, cynhaliom ein Hwythnos Gymraeg gyntaf, a oedd yn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws y sefydliad a dathlu gwahanol ddarnau o waith sy'n cael eu cyflawni gan gydweithwyr. Yn ystod yr wythnos gwnaethom:

- ❖ Gyhoeddi ein cylchlythyr Cymraeg misol
- ❖ Cynnal digwyddiad mewn partneriaeth rhwng rhwydweithiau Enfys ac Ymlaen i staff, gan groesawu Alun Saunders i siarad â ni am ei gyfieithiad o'r llyfr 'Heartstopper' i'r Gymraeg
- ❖ Cynnal sesiwn dal i fyny Cymraeg anffurfiol gydag aelodau Ymlaen
- ❖ Dyfarnu ein gwobr Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn gyntaf
- ❖ Dathlu pen-blwydd Ymlaen yn 1 oed gyda chyfarfod a darlledu fideo wedi'i recordio ymlaen llaw yn dangos cyd-gadeirydd y rhwydwaith a'i noddwr o'r Bwrdd Gweithredol.

Bu'n wythnos wych o dathlu ac rydym eisoes yn edrych ymlaen at Wythnos y Gymraeg 2025!

- **Sianeli Teams ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr**
Ers 2020, rydym wedi bod yn manteisio ar y cyfleoedd y mae'r amgylchedd digidol newydd ar Teams yn eu cyflwyno i ni. Mae gennym sianel Teams Cymraeg bwrpasol, sydd ag is-edafedd ar gyfer Cyffredinol, 'Siaradwyr' a 'Dysgwyr' (mae croeso i bob aelod o staff ymuno a chymryd rhan mewn unrhyw edefyn ym mha bynnag iaith a ddewisant).



Mae edefyn y Siaradwyr yn galluogi ein siaradwyr Cymraeg rhugl i sgwrsio am unrhyw bwnc yn Gymraeg a, hefyd, i drafod materion ieithyddol (e.e. terminoleg) sy'n codi yn eu gwaith.

Edefyn y Dysgwyr yw'r man lle gall ein staff sy'n dysgu Cymraeg rannu cwestiynau, llwyddiannau neu eitemau o ddiddordeb i ddysgwyr eraill, a gall Tîm y Gymraeg gefnogi ac annog, a rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau o fewn a'r tu hwnt i'r sefydliad. Yn y sianel hon, rydym yn annog pobl i ddefnyddio Cymraeg ysgrifenedig lle bynnag y bo modd; mae'r rhai sy'n dysgu'r iaith yn cael eu hannog i 'roi cynnig arni' – os na allant ddeall rhywbeth sydd wedi'i ysgrifennu yn iawn, rydym yn argymhell defnyddio'r cyfieithu peirianyddol yn sgwrs Teams i gyfieithu i'r Saesneg fel y gallant ddeall y rhannau a fethont, sy'n gyfle dysgu gwych.

Mae nifer aelodau'r ddwy sianel wedi parhau i dyfu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Anogir ein staff hefyd i ymuno â grwpiau Yammer GIG Cymru gyfan ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg; sefydlwyd y rhain gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys yn 2022 ac maent yn galluogi staff ar draws GIG Cymru i gysylltu a rhannu cwestiynau a phrofiadau.

Dogfennau ar gyfer staff (Safon 81)

Mae'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â chyflogaeth, megis y llythyr cynnig cyflogaeth a'r contract yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog yn ddiodyn drwy system Trac gan y Tîm Recriwtio ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Mae ffurflenni Fy Nghyfraniad, y mae staff yn eu defnyddio i gofnodi amcanion perfformiad ar gyfer y flwyddyn, ar gael yn ddwyieithog. Mae'r polisi ar Fy Nghyfraniad ar gael ar ein gwefan: [ICC66 \(gig.cymru\)](https://www.gig.cymru/icc66) ac mae'r ffurflenni ar gael i staff eu cyrchu'n fewnol.

Mae staff yn rheoli eu gwyliau blynyddol a'u hanghenion hyfforddi ar y system ESR (Cofnod Staff Electronig). Mae rhai rhannau o'r system ar gael yn Gymraeg ond mae ESR, yn anffodus, y tu hwnt i ddylanwad Iechyd Cyhoeddus Cymru, o ran y gallu i ddiwygio'r prosesau sy'n cael eu cynnwys ar y llwyfan.

Polisiau a Gyhoeddwyd (Safon 82)

Ym mis Ionawr 2020, cytunodd ein Bwrdd i gyhoeddi pob polisi newydd yn ddwyieithog ar ein gwefan. Yn ystod y pandemig, rhoddwyd y gorau i ddatblygu ac adnewyddu polisiau dros dro, ond aildechreuwyd hyn yn ystod 2021–22 a chaiff fersiynau Cymraeg eu huwchlwytho pryd bynnag yr ychwanegir polisiau newydd neu pan adolygir polisiau cyfredol.

Mae'r holl bolisiau a nodir o dan Safon 82 ar gael yn Gymraeg ar fewnrwyd ein staff yn ogystal ag ar dudalennau polisi ein gwefan: [Adnoddau Dynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](#)



Meddalwedd cyfrifiadurol i staff (Safon 89)

Darperir Pecyn Iaith Office yn Gymraeg yn safonol ar bob gliniadur a bwrdd gwaith. Hefyd, mae'r holl staff yn gallu cael at becyn geiriadur a meddalwedd gwirio sillafu Cysgliad ac mae cyfarwyddiadau ar sut i osod y feddalwedd ar gael ar adran Hwb Cymraeg mewnwyd y staff.

Mewnwyd Staff (Safonau 90 – 95)

Mae tudalen hafan ein mewnwyd staff ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn gyfartal ac mae'n cael ei rheoli gan ein Tîm Cyfathrebu corfforaethol. Mae'r holl straeon newyddion newydd i staff, sy'n dod o feysydd ar draws y sefydliad, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae rhai tudalennau pellach ar y fewnwyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i'n staff a, lle mae fersiwn Gymraeg gyfatebol ar gael, gellir mynd ati drwy'r togl dewis iaith ar frig ochr dde'r sgrin.

Hwb yr Iaith Gymraeg

Mae mewnwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru i staff yn cynnwys adran Gymraeg o'r enw 'Hwb'. Ei diben yw hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg i'n staff a darparu cymorth, arweiniad a gwybodaeth yn gysylltiedig â gweithredu Deddfwriaeth y Gymraeg.

Yn dilyn lansio'r wefan newydd yn 2022, rydym wedi gallu rhoi gwell gwybodaeth ac adnoddau i'n staff yn cwmpasu pob agwedd ar ddefnyddio a dysgu Cymraeg yn y gweithle, yn ogystal â chynnwys a gwybodaeth i gynorthwyo staff â deall a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.



Croeso! Dyma Hwb canolog Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y Gymraeg. Rydym yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy sicrhau ein bod yn ei hymgorffori yn ein diwylliant sefydliadol, er mwyn adlewyrchu'n wirioneddol y gymdeithas ddwyieithog rydym yn byw ynddi.





Un o'r amcanion yn adroddiad y llynedd oedd i ni wella cynnwys yr Hwb Cymraeg ac mae cynnydd aruthrol wedi'i wneud yn y maes hwn gyda strwythur, golwg a chynnwys yr holl dudalennau (heblaw am y dudalen Adnoddau a nodir isod) wedi'u diweddarau. Mae bellach yn llawer haws i staff symud o gwmpas a dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn yr Hwb.

Ein nod dros y flwyddyn nesaf yw cwblhau'r diweddariad i'n tudalen Adnoddau yn yr Hwb, lle mae ein holl ganllawiau a thempledi yn cael eu cadw. Bydd y dogfennau canllaw yn cael eu hailddrafftio mewn arddull sy'n haws i'r staff eu defnyddio a bydd y dudalen ei hun yn cael ei hailstrwythuro yn unol â 4 pennawd Safonau'r Gymraeg.

Hyfforddiant staff (Safonau 96–103)

Sgiliau Cymraeg ein gweithlu (Safon 96)

Caiff sgiliau iaith Gymraeg holl weithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru eu hasesu fel rhan o'r gofynion statudol a gorfodol y mae'n rhaid i bob aelod newydd o staff eu cwblhau cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt ddechrau yn eu rôl. Atgoffir staff o'r angen i gofrestru sgiliau Cymraeg ar wahanol adegau yn ystod eu recriwtio, gan gynnwys yn ein ffurflen gosod amcanion 'Fy Nghyfraniad', ac atgoffir staff hefyd i ddiweddarau lefel eu sgiliau os ydynt yn cwblhau hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg.

Ym mis Ionawr 2024, mae **95%** o'n gweithwyr wedi cofrestru lefelau eu sgiliau Cymraeg ar ESR.

Mae Tîm y Gymraeg wedi creu 'canllaw' hawdd ei ddilyn sy'n symleiddio'r broses i staff ac mae hwn ar gael ar dudalennau mewnwyd yr Hwb.



Hyfforddiant i wella sgiliau iaith Gymraeg aelodau staff

Hyfforddiant staff (Safonau 96–103)

Parhaodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i hybu dysgu Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn trwy gynllun 'Cymraeg Gwaith' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Anogir pob gweithiwr i gwblhau'r cyrsiau ar-lein a gynigir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar amser sy'n gyfleus iddynt hwy. Anogir staff i fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith os hynny sy'n gweddu orau i'w hanghenion a, lle codir tâl am gwrs, Iechyd Cyhoeddus Cymru fydd yn talu amdano.

Yn ystod 2023–24, cofrestrodd 72 aelod o staff ar gyfer cyrsiau a gynigir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n dangos gostyngiad bach o gymharu ag 85 y flwyddyn flaenorol. Mae Tabl 1 yn dangos nifer y gweithwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer pob cwrs.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Tabl 1 - Cofrestriadau â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cwrs	Nifer y cofrestriadau (Dyddiad cofrestru rhwng 01.04.2023 a 31.03.2024)
Croeso 1	47
Croeso 2	8
Croeso Nôl 1	13
Croeso Nôl 2	2
Gwella Eich Cymraeg 1	2
CYFANSWM	72

Mae'r tabl yn dangos brwdfrydedd iach tuag at ddysgu Cymraeg o fewn y sefydliad. Er y bu gostyngiad bach o gymharu â'r 85 o gofrestriadau a welodd y sefydliad yn 2022-2023, mae galw calonogol o hyd am y mathau hyn o gyrsiau. Mae'r gostyngiad mewn niferoedd yn rhoi cyfleoedd i hyrwyddo'r cyfleoedd hyn ymhellach yn ystod blwyddyn ariannol 2024-2025.



Er gwaethaf y gostyngiad yn y ffigurau uchod, mae'r sefydliad yn symud ymlaen yn gadarnhaol, gydag agwedd y staff tuag at y Gymraeg yn gadarnhaol. Fel y dangosir yn Nhabl 1, mae mwyafrif y cofrestriadau ar gyfer 'Croeso 1' (47 cofrestriad), gydag 8 a 13 cofrestriad ar gyfer 'Croeso 2' a 'Chroeso Nôl 1' yn y drefn honno, gan ddangos bod y sefydliad yn denu dechreuwr i ddechrau eu taith dysgu iaith ac adeiladu lefelau cwrteisi eu Gymraeg.

Defnyddio Cymraeg Gwaith

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, trwy gydweithwyr yn Nant Gwrtheyrn, yn cynnig cyrsiau yn rhithwir ac wyneb yn wyneb. Mae'r cyrsiau 'Defnyddio Cymraeg Gwaith' a gynhelir gan Nant Gwrtheyrn yn helpu unigolion i wella'u gallu i ddefnyddio eu Gymraeg yn y gwaith.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023-2024, mynychodd 6 gweithiwr gyrsiau i wella eu sgiliau. Mae'r dadansoddiad o'r cyrsiau a fynychwyd fel a ganlyn: Canolradd - 1 gweithiwr, Uwch - 1 gweithiwr, a Gloywi - 4 gweithiwr. O'r 4 a fynychodd gyrsiau Gloywi, canolbwyntiodd 2 aelod o staff ar eu Gymraeg ysgrifenedig, a chanolbwyntiodd 2 arall ar eu Gymraeg llafar. O'r 6 gweithiwr, mynychodd 5 gyrsiau preswyl, gydag 1 yn dilyn cwrs ar-lein. Mae niferoedd 2023-24 yn dangos cynnydd amlwg o gymharu ag ystadegyn 2022-2023 – dim ond 1 gweithiwr a fynychodd gwrs Nant Gwrtheyrn bryd hynny.

Prifysgol Bangor

Mae Prifysgol Bangor hefyd yn darparu gwasanaethau ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru i staff gogledd Cymru. Mae'r union ddata yn dibynnu ar aelodau staff eu hunain yn datgan eu cyflogwr, felly rhagwelir y bydd nifer y staff sydd wedi cofrestru ar y cyrsiau yn fwy na'r hyn a gofnodwyd. Cadarnhawyd bod 3 wedi cymryd rhan yn y cyrsiau a gynigiwyd yn ystod 2023-24, gyda mwyafrif y staff hynny (2) yn cofrestru ar lefel Mynediad. Mae un aelod o staff wedi dilyn cwrs ar lefel Uwch. Dylid nodi bod 2 aelod o staff wedi mynegi diddordeb mewn cwblhau asesiad.

Prifysgol Caerdydd

Mae cynllun tebyg yn cael ei redeg yn y de gan Brifysgol Caerdydd. Cofrestrodd 10 o weithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llwyddiannus ar y cyrsiau. Cymerodd y mwyafrif ran yn y cyrsiau lefel Mynediad yn y lle cyntaf (5), gydag 1 cydweithiwr hefyd yn cofrestru ar gynnig lefel Sylfaen gan y Brifysgol. Astudiodd 2 weithiwr gyrsiau Sylfaen annibynnol ac aeth 3 gweithiwr arall i ddosbarthiadau Canolradd.

Yn ogystal â'r uchod, mae gennym 10 gweithiwr arall yn astudio trwy gyflenwyr megis Dysgu Cymraeg Y Fro, Dysgu Cymraeg Morgannwg a Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr, i enwi dim ond rhai.



Cynlluniau ar gyfer y dyfodol: Cyrsiau Meithrin Hyder Dysgu Cymraeg

Ar y cyd â Dysgu Cymraeg, yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom fesur y galw a oedd yn bodoli ymhlith ein staff i fynychu cyrsiau codi hyder. Mae'r cyfleoedd hyn yn targedu sgiliau siarad y rhai sydd ar lefel 3 neu uwch. Mae'r data yn dangos brwdfrydedd ymhlith staff i gymryd rhan ymhellach yn hyn o beth (45 aelod o staff, adeg ysgrifennu).

Nod y cyrsiau yw bod yn hyblyg, gan sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno yn unol ag arddulliau dysgu amrywiol ein haelodau staff. Coleg Cambria yw ein darparwr, ac edrychwn ymlaen at helpu i droi'r syniadau'n realiti yn 2024-2025.

I gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau ein Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol, mae cyfleoedd dysgu sydd wedi'u hanelu at y timau y sonnir amdanynt yn y cynllun wrthi'n cael eu datblygu hefyd. Yn gysylltiedig yn bennaf â'n hadrannau Sgrinio, uchelgais y darn hwn o waith yw uwchsgilio lefel Cymraeg y staff – beth bynnag fo'u lefel bresennol. Bydd yr enillion hyn, boed yn fawr, neu'n ymylol, yn ein galluogi ni fel sefydliad i ddarparu gwell gwasanaethau i'n defnyddwyr gwasanaethau sgrinio yn y dyfodol.

Edrychwn ymlaen hefyd at glywed mwy am y cwrs 'Croeso Cymraeg' a'i gyflwyno; bydd hwn hefyd ar gael i ni yn ystod 2024 / 2025 i gyflwyno Cymraeg cwrteisi i'n haelodau staff sydd ar lefel sgil 0 ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gyrraedd y nod yn Fframwaith Strategol Mwy Na Geiriau Llywodraeth Cymru, sef y bydd gan holl staff GIG Cymru lefel cwrteisi yn y Gymraeg erbyn 2027.

Sut rydym yn cefnogi ein dysgwyr Cymraeg

Rydym yn ffodus iawn yn Iechyd Cyhoeddus Cymru bod gennym ddysgwyr Cymraeg mor angerddol yn ein gweithlu ac, felly, ein nod yw cynnig cymaint o gefnogaeth â phosibl iddynt ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg tra yn y gwaith.

- Rydym yn cynnig ymarfer sgwrsio anffurfiol bob amser cinio dydd Mawrth, dros MS Teams. Mae hwn yn agored i staff waeth beth fo lefel eu Cymraeg.
- Rydym yn cynnig cynllun mentora, lle rydym ynparu siaradwyr hyderus, gyda siaradwyr neu ddysgwyr llai hyderus. Ar hyn o bryd mae gennym ni 6 phâr wedi'u paru yn ein carfan yn 2024.
- Yn ddiweddar, rydym wedi dyfarnu gwobr gyntaf Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn, yn ystod ein Hwylthnos o dathliadau Cymraeg yn arwain at Ddydd Gŵyl Dewi.
- Mae ein rhwydwaith iaith Gymraeg, Ymlaen, hefyd yn darparu gofod i ddysgwyr wella eu sgiliau Cymraeg.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r holl gyfleoedd hyfforddi Cymraeg sydd ar gael i'n staff dros y flwyddyn nesaf ac yn eu cefnogi i ddod o hyd i'r cwrs iawn ar eu cyfer.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith (Safon 102)

Ar ddiwedd mis Tachwedd 2022, cafodd modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg newydd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei lansio ar ESR ar draws sefydliadau GIG Cymru. Mae'r hyfforddiant yn rhan o'r hyfforddiant Gorfodol Statudol y mae'n rhaid i bob aelod o staff ei gwblhau ac mae angen ei adnewyddu bob 3 blynedd.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd **92.8%** o'r staff yn cydymffurfio â'r modiwl. Mae hyn yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru, sef 90%. Rydym yn falch iawn ein bod wedi rhagori ar y targed ac rydym yn ddiolchgar i'n staff am sicrhau eu bod yn cwblhau'r modiwl ac, felly, bod ganddynt ddealltwriaeth llawer gwell o'r Gymraeg o fewn GIG Cymru.



I gyd-fynd â'r hyfforddiant a roddir ym modiwl yr ESR, mae ein Tîm y Gymraeg ar hyn o bryd yn datblygu cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ychwanegol, y gellir ei gyflwyno naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein. Bydd y cwrs yn rhoi cipolwg pellach i bwysigrwydd y Gymraeg yng Nghymru, y cyd-destun hanesyddol, yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud yn benodol â staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, a lle mae cymorth ar gael iddynt.

Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gwblhau a'i gynnig i staff dros y flwyddyn nesaf, gan ddechrau trwy ei gyflwyno i staff yn ein Hadran Sgrinio yn ystod yr haf.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Tîm y Gymraeg wedi achub ar y cyfle i gyflwyno gwybodaeth a sesiynau codi ymwybyddiaeth i dimau ar draws y sefydliad yn ôl y gofyn, gan gynnwys y Tîm Cyfathrebu, Tîm y Rhaglen Afiechydon Ataliadwy trwy Frechu, y Grŵp Egwyddorion Cyhoeddi yn ogystal â chynnal sesiwn yn ystod cynhadledd staff Cymru gyfan ym mis Tachwedd. Bydd y tîm yn parhau i gyflwyno'r sesiynau hyn pan ofynnir amdanynt neu fel y bo angen.

Yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf, bydd sesiynau hyfforddiant 'Agor y Drws: Cyflwyno'r Gymraeg' yn cael eu cynnig i staff ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n arweinwyr neu'n ddylanwadwyr. Bydd y sesiynau, sy'n cael eu trefnu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, yn cael eu cyflwyno gan Mererid Hopwood a Mandy Morse o Brifysgol Aberystwyth, ac maent wedi'u hanelu at y rheini sy'n arweinwyr y Gymraeg ar draws y sefydliad. Bydd gwahoddiadau i'r sesiynau'n cael eu rhannu gyda'r Tîm Gweithredol, aelodau'r Bwrdd, aelodau Grŵp y Gymraeg a chyd-gadeiryddion y rhwydwaith staff, Ymlaen.

Cynefino staff (Safon 103)

Roedd ein prosesau cynefino yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn un o'n targedau yn adroddiad blynyddol y llynedd a gwnaed cynnydd yn y maes hwn, fel yr amlinellir isod.

Mae pob aelod newydd o staff yn derbyn gwybodaeth am y Gymraeg yn y gwaith yn eu llythyr croeso, sy'n cynnwys dolenni uniongyrchol i dudalennau'r Hwb Cymraeg.

Y Gymraeg yn y Gwaith

Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru, ochr yn ochr â'r Saesneg, ac mae Safonau'r Gymraeg, fel yr amlinellir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn amlygu'r hawliau a'r cyfrifoldebau sydd gennym i gyd, wrth weithio i sefydliad cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r holl staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, beth bynnag ffo lefel eu gallu, ac mae'n ddyletswydd ar bob aelod o staff i ystyried yr iaith yn y gwaith a wnânt.

Ein [Hwb yr Iaith Gymraeg](#) yw eich man cychwyn ar gyfer unrhyw beth sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth bellach am eich hawliau a'ch cyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg, gwybodaeth am ddysgu Cymraeg (gan gynnwys modiwlau dysgu ar-lein 10 awr am ddim) a llawer o "ganllawiau cyflym", offer ac adnoddau defnyddiol.



Mae'r brand Iaith Gwaith yn nodi siaradwyr Cymraeg ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru. Os bydd rhywun yn gwisgo bathodyn, neu laniard, gyda'r logo hyn, mae'n dangos eu bod yn gallu cynnal sgwrs yn y Gymraeg. Gallwch [archebu laniardiau a bathodynau](#) i ddangos eich bod yn siarad neu'n dysgu Cymraeg.

Eisiau sgwrs? Os hoffech wybodaeth bellach neu sgwrs am y Gymraeg, cysylltwch â Cymraeg.ICC@wales.nhs.uk.

Ym mis Medi 2023, aildechreuwyd ein diwrnod cynefino wyneb yn wyneb ar gyfer staff newydd, ar ôl cyfnod o seibiant yn ystod 2020 – 2022. Mae'r digwyddiad yn dod â phob aelod newydd o staff ynghyd yng Nghaerdydd lle y cânt gyflwyniad i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae marchnad ar gael i ddechreuwyr newydd yn ystod y dydd ac mae gan Dîm y Gymraeg stondin i rannu gwybodaeth am y cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau Cymraeg i ddechreuwyr newydd yn ogystal â lle i gael gwybodaeth am gydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg.

Bob mis, cynhelir sgwrs Teams i ddechreuwyr newydd hefyd lle rhennir gwybodaeth am y Gymraeg a sut i ddod o hyd i wybodaeth.

Yn ystod Haf 2023, cafodd rhestr wirio newydd y Gymraeg ei chynnwys yn ein gwybodaeth cynefino gorfforaethol ar fewnwyd y staff, o'r enw 'Pethau y mae

angen i chi eu gwybod i'ch rhoi ar ben ffordd'. Anogir pob gweithiwr newydd i ddilyn y canllawiau ar y dudalen hon.

^ Yr Iaith Gymraeg

Croeso! Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn falch o'n dwylliant, brand ac ethos dwyieithog ac rydym yn annog ein holl staff i ddsygu, datblygu a defnyddio cymaint o'u Gymraeg â phosibl tra yn y gwaith. Fel corff cyhoeddus yng Nghymru, mae gofyniad cyfreithiol amon, o dan ein [Safonau Iaith Gymraeg](#), i gynnig gwasanaeth cyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg i'n cwsmeriaid, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth. Gall staff hefyd dderbyn rhai gwasanaethau a gwybodaeth gan y sefydliad yn Gymraeg, os dymunant. Fel sefydliad Iechyd, mae gennym hefyd ddyletswydd i gydymffurfio â fframwaith strategol Mwy Na Geiriau Llywodraeth Cymru a'r nodau yn eu [Cynllun Pwm Mlynedd 2022 - 2027](#).

Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod o staff i fodloni Safonau'r Gymraeg a dyma rai pethau y gallwch chi eu gwneud i helpu, wrth i chi ddechrau eich gyrfa gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Cofnodwch eich sgiliau Gymraeg ar ESR – cofiwch ddiweddarau'r rhain os ydych yn ddsygu, yn gwella neu'n datblygu eich sgiliau Gymraeg. Cwblhewch y cysiau ar-lein 'Croeso Rhan 1 a 2' a 'Croeso Nôl Rhan 1 a 2' os yw eich sgiliau Gymraeg ar lefel 0: [CYRSIAU BLASU AR-LEIN RYR I DYSGU CYMRAEG](#)
- Cwblhau'r modiwl hyfforddiant gorfodol Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ar ESR
- Gosodwch eich llofnod e-bost a neges allan o'r swyddfa yn ddwyieithog, gan ddefnyddio'r templedi sydd ar gael yma ar gyfer allan o'r swyddfa: [Canllaw Cyflwyno Llofnod e-bost allan o'r swyddfa](#), ac yma ar gyfer eich llofnod e-bost: [En Brand](#)
- Os ydych yn siaradwr neu'n diddysgwyr Gymraeg, archebwch fathodyn neu gortym Iaith Gwaith drwy'r ffurflen hon: [Adnoddau 'Iaith Gwaith'](#)

Mae canllawiau iaith Gymraeg cyfatebol hefyd wedi'u cynnwys yng ngwybodaeth gynefino ein rheolwyr dros y flwyddyn ddiwethaf, ar gyfer rheolwyr llinell staff newydd a rheolwyr newydd o fewn y sefydliad. Mae'r ddau ddatblygiad hyn wedi'u rhannu ag aelodau Grŵp y Gymraeg i'w hanfon ymlaen at staff y Gyfarwyddiaeth.

Ers mis Medi 2023, mae'r Tîm Cyfathrebu a Thîm y Gymraeg wedi bod yn gweithio ar fideo animeiddio 'Cyflwyniad i'r Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru', a fydd hefyd yn rhan o'r broses gynefino yn y dyfodol. Bydd yr animeiddiad yn cael ei gwblhau a'i gynnwys mewn trefniadau ffurfiol dros y flwyddyn nesaf.

Mae gan rai adrannau unigol hefyd eu prosesau cynefino eu hunain ar gyfer eu haelodau staff, sy'n cynnwys dolenni i ganllawiau a gwybodaeth am y Gymraeg.

Iaith Gwaith (Safonau 104 -105)

Ar dudalen adnoddau ein Hwb Cymraeg, mae gennym ganllaw cyflym i staff ar lofnodion e-bost dwyieithog a negeseuon allan o'r swyddfa.

Anogir aelodau newydd o staff i ddefnyddio templedi'r llofnod e-bost a ddarperir yn ein canllawiau brand a'r templedi allan o'r swyddfa yn ôl yr angen.

Anogir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio logos iaith Gwaith yn eu llofnodion e-bost.

Mae gennym ffurflen archebu ar-lein syml y gall staff ei defnyddio i gael deunyddiau 'Iaith Gwaith'. Ar ôl eu harchebu, mae'r rhain yn cael eu dosbarthu gan Dîm y Gymraeg.

Mae Tîm y Gymraeg hefyd wedi dylunio a rhannu posteri gyda chodau QR i'n staff sy'n gweithio mewn lleoliadau labordy a sgrinio, nad oes ganddynt fynediad rheolaidd bob amser i liniaduron. Mae'r codau QR yn golygu bod staff yn gallu cyrchu tudalennau mewnwyd Hwb y Gymraeg a'r ffurflen archebu ar eu dyfais symudol a bydd y deunyddiau'n cael eu postio i'w lleoliad.



Recriwtio (Safonau 106–109)

Ochr yn ochr â datblygu sgiliau Cymraeg ein gweithwyr, mae recriwtio staff dwyieithog yn rhan o'n dull o gynllunio'r gweithlu i sicrhau y darperir gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae offeryn asesu sgiliau Cymraeg wedi bod yn rhan annatod a gorfodol o broses recriwtio rheolwyr ar gyfer pob rôl ers blynyddoedd lawer, ac mae Tîm y Gymraeg yn gweithio'n rheolaidd gyda rheolwyr i sicrhau bod eu swyddi gweigion Cymraeg hanfodol yn cael eu targedu a'u marchnata tuag at gymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae Tîm y Gymraeg felly wedi datblygu dogfen ganllaw i reolwyr i'w cefnogi wrth hysbysebu rolau Cymraeg hanfodol. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn, rydym yn adolygu ein ffurflen Asesu Sgiliau Cymraeg ac yn archwilio opsiynau a ddefnyddir gan sefydliadau eraill GIG Cymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm recriwtio wedi cyhoeddi tudalen ar fewnrwyd y staff 'Recriwtio: Esboniad o ofynion yr iaith Gymraeg', sy'n cynnwys gwybodaeth am ein rhwymedigaethau cyfreithiol o ran recriwtio staff newydd, canllawiau ac offer i hwyluso'r broses recriwtio ar gyfer rheolwyr yn ogystal â thestun hysbyseb safonol a rhestrau terminoleg i reolwyr recriwtio eu defnyddio. Mae Tîm y Gymraeg yn gweithio'n barhaus gyda'r tîm recriwtio i sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf defnyddiol yn cael ei chynnwys ar y dudalen fewnrwyd hon sy'n cefnogi staff i recriwtio siaradwyr Cymraeg yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae pob hysbyseb swydd a swydd-ddisgrifiad yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd ar Trac yn y Gymraeg a'r Saesneg a rhannwyd gohebiaeth atgoffa gyda rheolwyr am yr angen i gyfieithu pob dogfen ac asesu'r sgiliau iaith sydd eu hangen ar gyfer swyddi.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynllunio'r Gweithlu wedi'i sefydlu i ddod â chydweithwyr o'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol ynghyd i ddechrau edrych ar ein nodau yn y maes hwn. Mae cynllunio strategol y gweithlu yn ymwneud â sicrhau gweithlu o'r maint cywir yn y dyfodol, gyda'r sgiliau ac amrywiaeth gywir, wedi'i drefnu yn y ffordd gywir o fewn cyllideb fforddiadwy, gan alluogi'r sefydliad i gyflawni ei amcanion tymor byr, canolig a hir. Felly, bydd cynnwys y Gymraeg yng nghynlluniau gweithlu strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ein galluogi i sicrhau bod gan ein gweithlu yn y dyfodol y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein hamcanion strategol, a bodloni Safonau gofynnol y Gymraeg.

Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd hon, roeddem wedi recriwtio ein harweinydd Cynllunio'r Gweithlu newydd fel y gall y gwaith fynd rhagddo. Dros y flwyddyn nesaf bydd ein cynllun ar gyfer y gweithlu yn cael ei amlinellu, fel y'i disgrifir yn ein targedau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol (Safonau 110 – 110A)

Yn dilyn y canllawiau a dderbyniwyd gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynghylch y Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol, cyhoeddwyd ein Cynllun Ymgynghoriadau



Clinigol ym mis Medi 2023: <https://icc.gig.cymru/amdanom-ni/cynllun-cyhoeddi/y-gymraeg/cynllun-ymgynggori-clinigol-2023/>

Mae'r cynllun yn manylu ar ein huchelgais i wella ein gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg dros y 5 mlynedd nesaf. Gan mai dim ond rhai o'n hadrannau sy'n cynnal ymgynghoriadau clinigol, mae'r cynllun wedi'i ddrafftio gan staff o'n hadrannau Sgrinio a Helpa Fi i Stopio, gyda chymorth Tîm y Gymraeg. O ganlyniad, mae gan dimau clinigol berchnogaeth dros y cynllun, gyda'r targedau a osodwyd dros y 5 mlynedd nesaf yn realistig ac yn uchelgeisiol.

Safonau Cadw Cofnodion (119–121)

Nifer y cwynion a dderbyniwyd (Safon 115)

Rydym yn croesawu adborth a chwynion am ein gwasanaethau Cymraeg gan fod cwynion yn ein galluogi i wella a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.

Derbyniodd Iechyd Cyhoeddus Cymru chwe chwyn ac un ymholiad yn ymwneud â chwyn yn ystod 2023–24. Daeth tair cwyn i'n sylw drwy ein Gweithdrefn Gweithio i Wella ac roeddent yn ymwneud â'r meysydd busnes a ganlyn:

- ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a thudalennau gwe;
- safon y Gymraeg ar holiadur; ac
- y llinell ffôn Gymraeg ar gyfer un o'n gwasanaethau sgrinio.

Ymdriniwyd â phob un o'r cwynion gan y maes busnes perthnasol, gyda chymorth ac arweiniad gan Dîm y Gymraeg lle bo angen. Cafodd yr holl gwynion eu datrys i foddhad yr achwynwyr a rhannwyd adborth a gwersi a ddysgwyd yn fewnol gyda staff o ganlyniad.

Cawsom hefyd tair cwyn yn uniongyrchol i Dîm y Gymraeg drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r cwynion a dderbyniwyd a'r canlyniadau wedi'u hamlinellu isod:

- Cwyn a dderbyniwyd yng ngwanwyn 2023 yn ymwneud â chyfleoedd dysgu Cymraeg. Derbyniwyd cwyn gan aelod o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru nad oedd eu rheolwr llinell wedi rhoi caniatâd iddynt fynychu'r cwrs Cymraeg preswyl yr oeddent yn ei ddymuno. Bu Tîm y Gymraeg a'r Tîm Dysgu a Datblygu yn gweithio gyda'r ddau barti a chafodd y gweithiwr gyfle i fynychu cwrs preswyl i loywi ei Gymraeg yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Cwyn a dderbyniwyd yn ystod Gaeaf 2023 yn ymwneud â hawl aelodau staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Derbyniwyd cwyn gan aelod o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru eu bod wedi cael eu hatal rhag defnyddio eu Cymraeg yn y gweithle. Bu'r tîm dan sylw yn gweithio'n agos gyda Thîm y Gymraeg i godi ymwybyddiaeth o Bolisi'r sefydliad ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn Fewnol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac o hawl unigolion, o dan Fesur y Gymraeg, i ddefnyddio'u Cymraeg. Nid yw'r gwyn yn adlewyrchu'r positifrwydd tuag at y Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.



- Cwyn a dderbyniwyd yn gynnar yn 2024 ynghylch ansawdd y testun Cymraeg ar holiadur ar-lein. Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd a chywirdeb y testun Cymraeg mewn holiadur ar un o'n gwefannau. Bu'r Tîm Cyfathrebu'n gweithio gyda'r tîm cyfrifol i unioni problemau gyda'r holiadur yn ogystal â chwblhau gwiriad trylwyr o gynnwys y wefan yn gysylltiedig â'r holiadur i sicrhau bod y cynnwys Cymraeg o'r un ansawdd a chywirdeb â'r Saesneg.

Ymchwiliwyd i bob un o'r tair cwyn uchod i foddhad Comisiynydd y Gymraeg a'r achwynwyr ac nid oedd angen unrhyw gamau pellach.

Ddiwedd mis Mawrth, cawsom gŵyn ar ffurf ymholiad gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch dogfen Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol i Oedolion a gyhoeddwyd ar wefan Gweithrediaeth y GIG. Rydym wedi trefnu cyfarfod gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i archwilio a thrafod hyn ymhellach yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

Ym mis Mawrth 2023, cawsom Ymchwiliad Gorfodi Safonau gan Gomisiynydd y Gymraeg o ran ein methiant i gydymffurfio â Safon 39 y Gymraeg ar draws ein cynnwys ar y we. Cyflwynwyd ein hymateb i'r ymchwiliad ym mis Medi 2023 ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed dros y rhan olaf o'r flwyddyn i wneud gwelliannau i'n gwefannau Cymraeg (mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld o dan safon 39).

Ymdrin â Phryderon a Chwynion (Safon 119)

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, y cyhoedd a gweithwyr ar weithredu Safonau'r Gymraeg. Rydym am ddysgu o'u profiadau, boed yn dda neu'n ddrwg, a byddwn yn gwneud gwelliannau lle y mae diffygion.

Rydym yn delio â phryderon gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd ynghylch gweithredu Safonau'r Gymraeg yn unol â'n gweithdrefnau corfforaethol 'Gweithio i Wella'. Rydym yn delio â phryderon gan ein gweithwyr yn unol â pholisi Parch a Datrys Cymru Gyfan.

Mae'r dudalen Cwynion ar ein gwefan yn cynnwys adran ar Safonau'r Gymraeg a sut i gysylltu â ni os hoffai cwsmeriaid a/neu gleifion roi gwybod am achosion o ddiffyg cydymffurfio: [Cwynion - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](https://www.gig.cymru/cwynion) Mae'r tudalennau cwynion ar y we yn cynnwys gwybodaeth am ein Safonau Iaith Gymraeg, a hawl aelodau'r cyhoedd i godi pryder gyda ni am ein gwasanaethau Cymraeg os nad ydynt cystal ag y dylent fod.

Mae dolen i'r dudalen gwynion hefyd ar gael ar dudalen Iaith Gymraeg ein gwefan: [Y Gymraeg - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](https://www.gig.cymru/y-gymraeg) Mae ein tudalen we Gymraeg yn rhoi manylion am sut y gellir codi pryderon drwy Gweithio i Wella, drwy Dîm y Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru neu drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Rhaid cofnodi pob cwyn a dderbynnir ar Datix, sef system rheoli risg GIG Cymru. Pan fydd cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu cofnodi ar y system, mae Rheolwr y Gymraeg yn derbyn hysbysiad e-bost awtomatig. Adroddir ar y cwynion hyn hefyd yng nghyfarfodydd chwarterol Grŵp y Gymraeg ac i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein tîm ymgysylltu wedi bod yn defnyddio platfform adborth Civica ac mae amrywiol adrannau wedi cynllunio arolygon i gasglu adborth gan gwsmeriaid a staff. Mae un o'r arolygon hyn yn cael ei ddatblygu i roi cyfle i'n cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth roi adborth ar y gwasanaeth Cymraeg y maent wedi'i dderbyn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd yr holiadur hwn, ac eraill, ar gael yn ystod 2024 – 2025.



Sgiliau Cymraeg gweithwyr (Safon 116)


Mae 2439 o weithwyr (**95%** o'r gweithlu, sy'n gynnydd ers y llynedd) wedi cofnodi eu gallu yn y Gymraeg ar system y Cofnod Staff Electronig (ESR). Mae Tabl 2 yn dangos nifer a chanran y gweithwyr hyn sy'n hyfedr ar bob lefel (gweler hefyd Ffigur 1); mae gan 256 o weithwyr (10.5% o'r rhai a ddatganwyd) sgiliau Cymraeg ar Lefelau 4 a 5. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y staff sy'n adrodd am sgiliau sylfaenol (Lefel 1) a'r rhai sy'n adrodd am sgiliau Cymraeg lefel 3, 4 a 5. Bu cynnydd hefyd yn y rhai a ddywedodd nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg.

Tabl 2: Cyfraddau datgan sgiliau Cymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru



	<i>Nifer</i>	<i>Canran</i>
Nifer staff Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 31/03/2024	2439	100%
Gweithwyr sydd wedi cofnodi eu sgiliau siarad Cymraeg ar 31/03/2024	2324	95%
Gweithwyr sydd heb gofnodi eu sgiliau siarad Cymraeg ar 31/03/2024	115	5%
Lefel 0	1414	57.9%
Lefel 1	553	22.7%
Lefel 2	134	5.5%
Lefel 3	82	3.4%
Lefel 4	99	4.0%
Lefel 5	157	6.5%
CYFANSWM	2439	100.0%

Ffigur 1: Lefelau sgiliau Cymraeg staff



Gofynion sgiliau Cymraeg swyddi newydd a swyddi gwag (Safon 117)

Mae Safon 106 yn gofyn bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn categoreiddio pob swydd newydd a swydd wag yn ôl ei ofynion o ran sgiliau Cymraeg. Darperir y data yn y tabl isod i ni gan gydweithwyr ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Yn ystod 2024–25, hysbysebodd Iechyd Cyhoeddus Cymru 744 o swyddi. Mae Tabl 3 yn dangos nifer a chanran y swyddi a hysbysebwyd fesul categori iaith.

Tabl 3: Sgiliau Cymraeg wrth recriwtio i Iechyd Cyhoeddus Cymru

Categori swyddi	Nifer	Canran
Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	29	3.9%
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd	0	0%
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	668	89.9%
Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.	47	6.2%

Mae canran y swyddi a hysbysebwyd fel swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol' wedi gostwng ers adroddiad y llynedd i 3.9%. Bu cynnydd bychan yn y swyddi a restrwyd



fel rhai 'Cymraeg yn Ddymunol' (o 83% yn 2022-23 i 89.9% yn 2023-24) a gostyngiad mawr yn y swyddi a restrwyd fel 'Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol' (o 11.5% i 6.2%), gan ddangos bod yr angen am fwy o sgiliau Cymraeg yn cael ei gydnabod.

Roedd llawer o'r rolau a hysbysebwyd fel rhai yr oedd angen sgiliau Cymraeg arnynt mewn rolau Sgrinio neu weinyddol, sy'n cael eu nodi o dan y Safonau ar Dderbynfeydd ac yn ein Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol. Nodir y gostyngiad yn nifer y rolau y nodir bod angen sgiliau Cymraeg arnynt a bydd yn elfen bwysig o'n prosiect cynllunio'r gweithlu dros y flwyddyn i ddod.

Cofnod o'n Safonau (Safon 118)

Mae copi o hysbysiad cydymffurfio terfynol Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â gwybodaeth gyffredinol am y Gymraeg ar gael ar ein gwefan: [Y Gymraeg - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](https://www.gig.cymru)

Blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025

Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

Targed	Erbyn pryd?
Byddwn yn sicrhau bod staff ar draws y sefydliad yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y cynnig codi hyder gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg	Bydd 3 charfan wedi cymryd rhan erbyn mis Mawrth 2025
Byddwn yn archwilio'r cyfleoedd sydd ar gael gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg i'n staff sydd wedi nodi sgiliau Cymraeg lefel 0 gyrraedd lefel cwrteisi yn y Gymraeg.	Mawrth 2025
Bydd ein prosesau cyfieithu yn gwella dros y flwyddyn, gan gynnwys: <ol style="list-style-type: none"> Bydd Uned Gyfieithu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cyfieithu 2,000,000 o eiriau eleni i ni Byddwn yn tendro am ein fframwaith cyfieithu bach ein hunain o gyflenwyr allanol Byddwn yn cyflogi ein Cydlynnydd Cyfieithu ein hunain i reoli a chydlynu ein prosesau cyfieithu 	<ol style="list-style-type: none"> 1 Ebrill 2024 Erbyn 1 Awst 2024 Gobeithio y bydd yn ei swydd erbyn mis Hydref 2024
Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i'n gwefannau Cymraeg, yn unol â'r Cynllun Gweithredu a gyflwynwyd gennym i Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2024.	Drwy gydol y flwyddyn
Targed ein Cynllun Tymor Canolig Integredig o ran Cynllunio'r Gweithlu ar gyfer 2024 – 2025 yw: 'Sefydlu proses a fframwaith cynllunio'r gweithlu gan gynnwys rolau a	Diwedd Mawrth 2025



chyfrifoldebau clir'. Bydd y Gymraeg yn rhan annatod o'r broses hon a fydd yn sicrhau bod mwy o'n rolau yn cael eu nodi a'u hysbysebu'n swyddi sydd angen sgiliau Gymraeg.	
Byddwn yn cwblhau ac yn cyflwyno sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i Gydweithwyr. Bydd sesiynau'n cael eu darparu ar gyfer cydweithwyr Sgrinio yn gyntaf, yn unol â thargedau ein Cyllun Ymgynghoriadau Clinigol	Diwedd Mawrth 2025
Bydd arweinwyr a dylanwadwyr o fewn y sefydliad yn cael y cyfle i fynychu sesiwn hyfforddiant 'Agor y Drws: Cyflwyno'r Gymraeg'	Bydd y ddwy sesiwn yn cael eu cyflwyno erbyn diwedd Mai 2024
Byddwn yn dilyn canllawiau a chynghor a roddir gan Gomisiynydd y Gymraeg i wella ein cydymffurfedd â'r Safonau Llundio Polisi ac yn gweithredu'r rhain drwy ein Hwb Llywodraethu	Diwedd Mawrth 2025
Byddwn yn parhau i ddatblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru fel sefydliad dwyieithog lle mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael eu dathlu. Byddwn yn gwneud hyn drwy wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Parhau i rannu cylchlythyr Gymraeg misol gyda staff• Trefnu o leiaf 2 ddiwyddiad dathlu yn ystod y flwyddyn gyda'n rhwydwaith staff, Ymlaen, neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill GIG Cymru• Cynnal ein hail Wythnos Gymraeg ym mis Chwefror / Mawrth 2025	Diwedd Mawrth 2025
Byddwn yn parhau i wella a datblygu ein tudalen Adnoddau HWB Cymraeg er mwyn sicrhau bod ein canllawiau a'n templedi ar y Gymraeg i staff yn glir ac yn hygyrch.	Mawrth 2025
Byddwn yn cwblhau ac yn rhannu animeiddiad Cyflwyniad i'r Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru adeg cynefino staff ac at ddibenion hyrwyddo	Medi 2024